# Y CARDI BACH

**Papur Bro Dyffryn Taf**

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 450 | Ebrill 2024 | Pris £1.50

# Dathlu Ymddeoliad Mrs Gill Lewis a Mrs Wendy Rees o Gylch Meithrin Bancyfelin

**Diwedd cyfnod**

Ar yr 22ain o Fawrth fe ddaeth yr amser i ffarwelio â Mrs Gill Lewis a Mrs Wendy Rees o Gylch Meithrin Bancyfelin.

Ar ôl cyfnod o 34 o flynyddoedd i Mrs Wendy Rees a 24 o flynyddoedd i Mrs Gill Lewis yn gwasanaethu Cylch Meithrin Bancyfelin, felly roedd rhaid mynd ati i drefnu Te Parti i'r ddwy - a lle gwell na dathlu oedd yn Neuadd Bancyfelin lle mae'r Cylch yn cael ei gynnal.

Ar y 7fed o Ebrill fe ddisgynnodd torf o bobol i ddiolch i'r ddwy am eu gwaith caled a'u gofal heb ei ail. Roedd yna hefyd gyfle i edrych nôl ar hen luniau a llyfrau oedd wedi cael eu cadw yn ofalgar dros y degawdau diwethaf. Braf oedd gweld disgyblion presennol a hen ddisgyblion yn rhan o'r dathliad. Fe wnaeth y pwyllgor rhieni ddangos fideo montage. Yna adroddodd Trefina Jones atgofion personol a sôn am bwysigrwydd y cylch i'r ardal. Fe wnaeth Elinor, ar ran Mrs Wendy Rees, a Mrs Gill Lewis siarad a diolch i bawb am ddod ac yn olaf fe roddodd Annalyn y Maer rodd i'r Cylch Meithrin ar ran Cyngor Sanclêr.



Yn y llun gwelir Joyce Evans, Wendy Rees a Gill Lewis. Hefyd Ava Coffin, Millie Morris, Dion Jones

Dymunwn ymddeoliad iachus a hapus i Mrs Gill Lewis a Mrs Wendy Rees.

Er yn ddiwedd cyfnod, braf yw cyhoeddi bod yna arweinydd newydd wedi cael ei phenodi sef Meleri Siôn Morgan a chynorthwyydd, Rose Pearson, efo cefnogaeth Joyce Evans fel cadeirydd a chynorthwyydd mae'r cylch mewn dwylo saff iawn. Dymunwn bob lwc i'r criw newydd.

---

## Cyngor Tref Sanclêr

Pleser o'r mwyaf gyhoeddi bod Cyngor Tref Sanclêr wedi ennill y brif wobr ar gyfer Datganoli Gwasanaeth neu Brosiect Asedau Gorau yn ystod Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru a noddwyd gan Utility Aid a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-muallt ym mis Mawrth eleni.

*Adroddiad llawn ar dudalen 23*



Llongyfarchiadau i aelodau presennol a gorffennol y Cyngor sydd wedi cyfrannu a sicrhau'r llwyddiant hwn.

Catherine Lloyd-Jenkins, Clerc Cyngor Tref Sanclêr yn derbyn y wobr.

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Roeddwn i wastad wedi meddwl na fyddwn yn medru goddef neu yn hytrach ddioddef gwylio ciciau o'r smotyn mewn unrhyw gêm bêl-droed fel cefnogwraig. A than y 26ain o Fawrth 2024, roedd Cymru wedi llwyddo i osgoi artaith y ciciau o'r smotyn. Mae'n rhyfeddol a dweud y gwir mai dyma'r tro cynta erioed i chwaraewr Cymru orfod camu at y smotyn, a hynny o dan yr amodau mwyaf echrydus, gyda phawb yn gweddïo fod y bêl yn mynd i daro cefn y rhwyd.

A hyd yn oed os yw hi'n llwyddo, cwta eiliadau mae'r dathliadau a'r rhyddhad yn para, hyd nes y daw'r gic nesaf a'r chwaraewr nesaf yn camu o flaen y gôl.

Mae'r pwysau ar ysgwyddau gôl- geidwaid yn enfawr, ond am ryw reswm mae'n teimlo'n waeth pan fo chwaraewr yn methu cefn y rhwyd na gôl geidwad yn methu â'i harbed.

Ac felly yn stadiwm Dinas Caerdydd ar 26ain Mawrth 2024, fe ddaeth y munudau yr oeddem wedi bod yn eu hofni. Wedi 121 munud o chwarae a hithau'n ddi-sgor, ciciau o'r smotyn fyddai'n galluogi un tîm, Cymru neu Wlad Pwyl i gyrraedd pencampwriaeth Ewro 2024 yn yr Almaen.

Ar ôl gwylio gwledydd eraill ar y teledu yn wynebu yr un dynged sawl tro, roeddwn i wastad yn meddwl na fyddwn ni yn medru ymdopi o dan y fath straen. Lwcus nad oedd to uwchben y stadiwm, oherwydd mae'n bur debyg y byddai fy mhwysau gwaed wedi mynd trwyddo.

Yn gwbwl ryfeddol, llwyddais i wylio cic gyntaf lwyddiannus Ben Davies ac yna Kieffer Moore. Roedd gwylio ciciau llwyddiannus Gwlad Pwyl, pob un fel mellten neu roced yn boenus. Ac yna, aeth y cyfan yn ormod, ac edrych tua'r llawr wnes i o hynny ymlaen am ychydig o funudau. Ac yna mentro i edrych i fyny pan gerddodd Daniel James tuag at y marc. A gwybod ym mer fy esgyrn, wrth iddo bwyllo ac oedi, nad oedd hyn yn arwydd calonogol….

Ac yna'r distawrwydd yn Stadiwm Dinas Caerdydd er bod 30 mil yn y dorf. Roedd siom wrth gwrs, ac eto, o'm rhan i roedd teimlad bod yn rhaid i un tîm golli. Ac yn anffodus, un chwaraewr yn unig ar y cae fyddai'n dod â'r cyfan i ben gyda chic aflwyddiannus.

Mae'n gêm greulon, ond wrth gwrs nid un chwaraewr yn unig sy'n gyfrifol am lwyddiant neu fethiant wrth ystyried y darlun ehangach. Gellid fod wedi ennill y gêm yn y 121 munud blaenorol, ac felly doedd y cyfrifoldeb ddim yn disgyn yn llwyr ar Dan James. A rhaid cyfaddef ei fod e a phob un o'r chwaraewyr a gytunodd i gymryd cic, wedi dangos dewrder etihriadol.

A phe baem yn byw mewn gwlad arall, ac yn benodol yr un drws nesaf, fe fyddai'r cefnogwyr wedi bod yn llawer mwy hallt a beirniadol.

Felly gallwn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn genedl sy'n cysuro pan fo angen hynny, yn gwarchod ein chwaraewyr. Felly awn ni ddim ymlaen i'r Almaen y tro hyn, ond fe godwn eto. A hynny yw un o'n cryfderau – ein gallu i gamu gyda'n gilydd yn gryfach.


Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION

COUNTY STORES

San Clêr

*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*



Ffôn: 01994 230474

**Fferyllfa Clunderwen**

GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL



Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228

Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan y Parchg Guto Llywelyn*

Ar Fai 19eg eleni am 2.00 y prynhawn byddwn yn cynnal oedfa ddathlu 150 mlynedd ers agor capel y Tabernacl, Hendy-gwyn. A byddwn yn cynnal yr oedfa ddathlu 150 mlynedd yn union i'r diwrnod ers yr oedfa gyntaf yn y capel.

Mae llawer ddim yn gwybod am Iesu heddiw. Mae llawer erioed wedi clywed am yr efengyl o gariad a llawer heb glywed am y Duw byw sydd yn gallu trawsnewid ein bywydau ni gyd.

A beth mae'r Tabernacl yn ceisio gwneud, fel gyda phob capel ac eglwys arall yng Nghymru ac yn y byd, yw cadw'r cof yn fyw. "Cof am yr annwyl Iesu" byddwn yn canu yn aml ac mae pob oedfa ym mhob capel ac eglwys yn cadw'r cof yn fyw. Ac mae pob oedfa yn gyfle i sôn am yr efengyl o gariad ac am y Duw byw sydd yn gallu trawsnewid ein bywydau.

Codwyd y Tabernacl pan roedd anghydffurfiaeth yn ei anterth. A phan oedd anghydffurfiaeth yn ddylanwad mawr ar y gymdeithas. Roedd yr efengyl gymdeithasol yn cael ei phregethu o Sul i Sul a phobl yn mynd mas o'r cwrdd ar dân i greu gwell byd.

Mae'r Parch Guto Prys ap Gwynfor yn aml yn sôn am y 'gydwybod anghydffurfiol Gymreig' (neu'r ' Welsh non-conformist conscience') . Y pregethu Cristnogol o Sul i Sul yn arwain at y 'gydwybod anghydffurfiol' a oedd yn ei dro yn arwain at well byd.

Yn y gydwybod anghydffurfiol Gymreig yn Llanystumdwy y magwyd Lloyd George. Ac yna'r Lloyd George ifanc a radical, yn mynd i Lundain ar dân i greu gwell byd. Fe wnaeth gyflwyno 'Cyllideb y Bobl' a wnaeth arwain at y pensiwn cyntaf erioed yn 1911. Dyma ddechrau'r wladwriaeth lês ac roedd y pensiwn yn gwneud yn siŵr fod y mwyaf bregus mewn cymdeithas a rhywbeth gyda nhw i fyw arno.

Awn ymlaen 37 mlynedd a gweld y gydwybod anghydffurfiol ar waith unwaith eto. Fe fagwyd Aneurin Bevan yn y traddodiad yma gyda'i dad yn flaenllaw gyda'r Bedyddwyr yn ardal Tredegar. Gweld pobol y capeli yn edrych ar ôl eu gilydd yn Nhredegar a wnaeth ysbrydoli Aneurin Bevan i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd yn 1948.

Ar hyd y canrifoedd Cristnogion sydd wedi bod tu ôl i wella'r byd ym mhob maes. Rydym yn byw yn ardal Griffith Jones. Ef a wnaeth Gymru'r wlad fwyaf llythrennog yn Ewrop gyda'r ysgolion cylchynol. Ac yna ym maes democratiaeth roedd ein capeli yn ddemocrataidd ymhell cyn bod y byd tu fas yn dilyn eu hesiampl. Yn y capel roedd pawb yn gyfartal ac yn cael un darn o fara ac un ddiod o win adeg y cymun ymhell cyn bod y byd tu fas yn rhoi pleidlais i bawb gan gynnwys pleidlais i ferched yn 1928.

Mae mawr angen yr efengyl gymdeithasol a'r gydwybod anghydffurfiol ar ein byd heddiw. Rydym yn arswydo o weld y rhyfeloedd sydd yn digwydd yn Gazza ac yn yr Wcráin ac mewn mannau eraill. Ac yma yng Ngwledydd Prydain cyhoeddwyd yn ddiweddar fod 12 miliwn yn byw mewn 'absolute poverty'. Mae mawr angen y tân a'r weledigaeth oedd gan ein cyndeidiau, arnom ni heddiw i newid ein byd er gwell.

Ar Fai 19eg am 2.00 felly byddwn yn dathlu 150 mlynedd o'r efengyl gymdeithasol yn y Tabernacl, 150 mlynedd o'r gydwybod anghydffurfiol ar waith a 150 mlynedd o geisio creu gwell byd.

Yn fwy na dim byddwn yn dathlu 150 mlynedd o bregethu Efengyl Iesu Grist, yr efengyl o gariad. A byddwn yn dathlu 150 mlynedd o addoli'r Duw byw sydd ar gael i newid ein bywydau ni gyd er gwell.

Beth am ymuno gyda ni ? Bydd croeso mawr yn eich disgwyl.

# **I’ch diddori** *gan John Arfon*

*Mae John Arfon wedi paratoi'r golofn yma er ei fod wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis a aeth heibio. Rydym yn falch ei fod adref a dymunwn wellhad buan iddo. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.*

Cydymdeimlad dwysaf ac unrhyw rai sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Hoffwn hefyd ddymuno iechyd buan i’r rhai sydd heb fod yn hwylus yn y misoedd diwthaf hyn a gallaf ond gobeithio y cewch adferiad buan cyn hir.

Yn ystod y rhifynnau nesaf byddaf yn ceisio son am rai o strydoedd Hendy gwyn y bum yn eu cerdded yn 1963. Byddai’n ddiddorol pe medrai rhywun roi hanes o gymeriadau yr ardal yn yr amser hyn. Oherwydd anhwyldeb dros yr wythnosau diweddaraf hyn, rhaid gadael hyn am y tro.

Dyma atebion y mis diwethaf

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | X | O | X | O | O |
| O | O | O | O | X | X |
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | X | 0 |
| X | O | X | X | O | O |
| 0 | X | O | O | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 6 | 3 | 7 | 4 | 1 | 9 | 5 | 2 |
| 4 | 1 | 9 | 3 | 2 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 5 | 7 | 2 | 8 | 9 | 6 | 4 | 3 | 1 |
| 1 | 5 | 4 | 6 | 7 | 9 | 8 | 2 | 3 |
| 3 | 2 | 6 | 1 | 5 | 8 | 7 | 4 | 9 |
| 9 | 8 | 7 | 4 | 3 | 2 | 5 | 1 | 6 |
| 2 | 3 | 5 | 9 | 8 | 4 | 1 | 6 | 7 |
| 6 | 4 | 8 | 2 | 1 | 7 | 3 | 9 | 5 |
| 7 | 9 | 1 | 5 | 6 | 3 | 2 | 8 | 4 |

Dyma atebion y croesair

Ar Draws

1. Difa, 8. Dymuniadau, 9. Planedau, 10. Sigo.
12 Difaru, 14. Nofela, 15. Coes Dde, !7. Cyllido
18. O Ddur, 19. Tymhorau, 21. Ymherodres, 22. Iarll

I Lawr

2. Iseldiroedd, 3. Aden, 4. Amodau, 5. Cneuen,
6. Camsefyll, 7. Hudo, 11. Gwladgarwr,
13, Amseroedd, 16. Estron, 17. Cymorth, 20. Oeri

Dyma atebion croesair rhifau

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ | 4 | 6 | 1 | 3 | 3 | 6 | 2 | ■ |
| 4 | ■ | 5 | 2 | ■ | 6 | 8 | ■ | 4 |
| 1 | 3 | 4 | ■ | ■ | ■ | 9 | 4 | 3 |
| 1 | 7 | 3 | 1 | ■ | 1 | 7 | 4 | 5 |
| 6 | 4 | 9 | 4 | 0 | 2 | 8 | 4 | 3 |
| 9 | 8 | 5 | 3 | ■ | 9 | 2 | 4 | 5 |
| 5 | 2 | 4 | ■ | ■ | ■ | 8 | 2 | 4 |
| 4 | ■ | 2 | 4 | ■ | 3 | 7 | ■ | 2 |
| ■ | 1 | 3 | 6 | 6 | 8 | 9 | 2 | ■ |

Dyma ddau i'ch diddori

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | O | | O |
| | X | | | | |
| X | | | | | |
| | | | X | | |
| | X | O | | | |
| | | O | | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 5 | 8 | | 4 | | | 1 |
| | 7 | | | | | 6 | | 8 |
| | | 9 | | | 6 | | 3 | |
| 5 | 8 | | | 4 | | | | |
| | | | 6 | | 1 | | 5 | |
| | | 6 | | 7 | | | 2 | 3 |
| | 2 | | | | 7 | 1 | | |
| 6 | | 7 | | 8 | | | 9 | 4 |
| 1 | | | 4 | | 5 | | 8 | |

"I Ddechrau"

Dyma'r rhan gyntaf o'r pôs y mis yma. Mae dechreuad pob gair a gewch wrth ddatrys y cliwiau yn dechrau gyda;r llythyren "i"

e.e. Enw cyntaf y digrifwr o Dregaron (4) - - - - yr ateb wrth gwrs yw "Ifan"

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren.

1, Ateb cadarnhaol (2) _ _
2. Teimlad o ofn (3) _ _ _
3. Mab Duw (4) _ _ _ _
4. Adfer neu wella (5) _ _ _ _ _
5. Mis o'r flwyddyn (6) _ _ _ _ _ _
6. Gwlad San Padrig (7) _ _ _ _ _ _ _
7. Afon yn llifo trwy Fôr Galilea (8) _ _ _ _ _ _ _ _
8. Y cyflwr o fod yn ifanc (9) _ _ _ _ _ _ _ _ _
9. Tito, arlywyd y wlad hon(1953-80) (10) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
10. Proses o lunio ymerodraeth Rufeinig (11) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
11, Y broses o gael eich achub (12) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
12. Gwlad yn Ewrop (11) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
13. Enw ar ras ceir 500 yn yr UDA (10)) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
14. Gwlad yn Asia (9) _ _ _ _ _ _ _ _ _
15. Yn perthyn i'r Moslemiaid (8) _ _ _ _ _ _ _ _ _
16. Hormon y pancreas (7) _ _ _ _ _ _ _
17. Gwlad yr Addewid (6) _ _ _ _ _ _
18. Cyflog (5) _ _ _ _ _
19 Williams y Naturiaethwr (4) _ _ _ _
21. Cymar ceiliog (3) _ _ _
22. Dwr wedi rhewi (2) _ _

"I Ddiweddu"

Dyma'r rhan olaf o'r pôs y mis yma. Mae pob gair yn diwed-du gyda'r lythyren "i". e.e. Enw barddonol y mor (4) - - - - yr ateb wrth gwrs fyddai "heli"

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren.

1, Sibrwd neu sôn (2) _ _
2. Rhif (3) _ _ _
3. Plentyn mewydd anedig (4) _ _ _ _
4. Glanhau â dwr (5) _ _ _ _ _
5. Arian U D A (6) _ _ _ _ _ _
6. Onglau (7) _ _ _ _ _ _ _
7. Dadlaith (8) _ _ _ _ _ _ _ _
8. Mesurau o hyd (9) _ _ _ _ _ _ _ _ _
9. Caneuon i suo babi i gysgu (10) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
10. Colli tymer neu wylltio (11) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
11, Athrawon (12) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
12. Detholiadau o ddarnau barddoniaeth (11) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
13. Gweithredu ar ran rhywun (10)) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
14. Deall a chredu (9) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
15. Canmol (8) _ _ _ _ _ _ _ _
16. Gostwng y llais (7) _ _ _ _ _ _ _ _
17. Costreli gwydyr neu blastig (6) _ _ _ _ _ _ _
18. Y cyflwr o fod yn dlawd (5) _ _ _ _ _ _
19 Nawddsant ein gwlad (4) _ _ _ _ _
21. Glanfa neu harbwr (3) _ _ _
22. Anifail anwes (2) _ _

# Dathlu Gŵyl Dewi yn Rhosan ar Ŵy



Dyma lun o dair ffrind o Rosan ar Wy. Ar y chwith mae Jean Brown, (Davies), gynt o Hen Dy Gwyn a Heddfan, Llanboidy. Maent yn aelodau gweithgar o griw Cymraeg yr ardal, sy'n cwrdd unwaith y mis am sgwrs a choffi yn Eglwys y Santes Fair. Sefydlwyd y grŵp, o bobol yr ardal a oedd yn awyddus i siarad a chymdeithasu yn y Gymraeg. Hyfryd yw cael dweud bod y grŵp wedi cynyddu o ddau aelod y llynedd, i dri deg a phedwar aelod erbyn hyn! Gwelir y grŵp yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gyda Ruth Cartledge yn canu'r delyn a phawb yn ymuno i ganu caneuon Cymraeg gyda'i gilydd. Fe godwyd swm arbennig o £300 tuag at goffrau'r eglwys.

Dymuna Jean estyn gwahoddiad i chi, ddarllenwyr y Cardi Bach i alw mewn am goffi a sgwrs ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis, os byddwch yn yr ardal. Bydd croeso mawr yn eich disgwyl!

Dywed Jean hefyd ei bod yn rhoi hen rifynnau'i Chardi Bach i aelodau'r grŵp i'w darllen ac i'w mwynhau.

Diolch i Jean am ei chaniatad i roi'r lluniau hyn i'r Cardi Bach. Dymuniadau gorau a llwyddiant i'r fenter ar gyfer y dyfodol.



# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb ac am eich cefnogaeth. Eleni eto, mae gennym nifer sylweddol o aelodau newydd, yn ogystal â ffrindiau sydd wedi bod yn gefnogol i'r clwb ers sawl blwyddyn.
Serch hyn, mae ambell i aelod ffyddlon heb ymaelodi eleni eto a byddai'n braf dros ben clywed wrthych.

Mae ymaelodi'n rhwydd - gallwch ddanfon siec am £10 i mi, yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', gyda'ch enw a chyfeiriad. Yn ogystal, gallwch dalu drwy'r system BACS. Côd didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae'n gofyn am gyfeirnod/reference, rhowch eich enw chi fan hyn. Mae'r gwobrau misol nawr yn £20 a £30!

Mae rhestr o'r holl aelodau sydd eisoes wedi ymaelodi yn y rhifyn hwn. Os ydych wedi talu, ond yn sylwi nad yw'ch enw chi i'w weld, cysylltwch â mi ar unwaith. Rhowch wybod hefyd os oes yna unrhyw newid i'ch manylion personol, e.e. enw, cyfeiriad, ayyb, os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill yn ystod y misoedd diwethaf:-

**Ionawr**
£30 - 43 - Ffenestri MWJ, Llandysilio
£20 - 339 - Gethin ac Eleri Gibbin, Henllan Amgoed

**Chwefror**
£30 - 182 - Byron a Morwen Edwards, Caerdydd
£20 - 416 - Jac Evan Morris, San Clêr

**Mawrth**
£30 - 202 - William Rees, Llanelli
£20 - 143 - Perlys John, Hwlffordd

**Dyma restr o'r enwau sydd eisioes wedi ymaelodi**

150 Shan Griffiths, 25 Tlysfan, Penwallis, **Abergwaun**
**Abergwili**
191 Ian a Catherine Ayers, Carrog
310 Y Parchedig Beti Wyn James, Llys Gwyn, Clos y Parc
151 Kathryn Heneghan, Aberystir, **Aberhonddu**
**Aberteifi**
10 Awen Teifi
27 G T Tyres, Brooklyn Garage
61 Olew Trefigin
689 Rhidian Evans, Dolawenydd, Heol Caemorgan
697 John a Morina Adams-Lewis, Feidrhenffordd
**Aberystwyth**
154 Eleri Roberts, Nant yr Eira, Commins Coch
769 Kaye Phillips, 14 Aviemore, Padarn Crescent
**Arberth**
115 Celia Vlismas, Optegydd
156 Leila Davies, 3 Cawdor Court
157 Ann Lewis, Creston, 6 Heol yr Orsaf
159 Ann Taylor, 57 James Street
344 Ron ac Eirlys Jenkins, Brynmarlais, Heol Redstone
623 John a Pauline Thomas, Tawelfan, 3 Gerddi Bloomfield
570 Cerys a Tomi Cleaver, Adelaide, **Awstralia**
**Bancyfelin**
100 Anthea a Dean Thomas, Siop Bancyfelin
164 Gwion a Sion Jones, Llwynonn
165 Terry a Merle Jones, 7 Lôn Cowin
166 Emrys Morgan, Sarnbwla Forge, Heol Meidrim
259 Julie Thomas, Glas y Dorlan
260 Eluned Griffiths, Nythfa, High Street
355 Nesta Howells, 20, High Street
509 Carwen Howells, Maescowin
591 Hilary Evans, Gwarwenallt
637 Annalyn Davies, Murmur Cowin
**Blaenffos**
31 Rhydwyn Davies, Trydanwr
169 Eifion Daniels, Hafan
**Blaenwaun**
170 Gareth a Pat Davies, Pilmawr
175 Tegwen James, Penybryn
177 Richard Pugh, Ffynnonlas Uchaf
178 Rhian Pugh, Ffynnonlas Uchaf
196 Jane Evans, Penddôl
773 Alun Griffiths, Heol-y-Wawr
**Boncath**
753 Ester a Madog Higginson, 5 Cwrt Dolwerdd
568 Siân Davies, Kings
636 Rayann Thomas, Penfedw
**Bryste**
520 Oliver a Phoebe Lewis, 4 Cavendish Close, Saltford,
585 Meril Morgan, 14 Heol Amberley, Downend
**Caerdydd**
121 Mali a Nel Kay, 29 Llwyn y Grant Road, Penylan
181 Mary Buttle, 16 Little Mill, Eglwyswen
182 Byron a Morwen Edwards, 74 Parc y Fro, Creigiau
183 Euros, Sian ac Elen Evans, Tŷ Uchaf, Y Rhws
184 Edryd a Helen Evans, 11 Apollo Close, Thornhill
185 Dr. W D a A Evans, 52 Heol Tŷ Draw, Penylan
186 Gareth Howells, 85 Bayscape, Ffordd Watkiss
187 June Huws, 3 Garth Villa, Gwaeod y Garth
479 Glyn a Tania Evans, 69 Riverglade, Gwaelod y Garth
633 Nansi a Nel Williams, 2 Burlington Terrace
752 Tomos ac Etta Phillips, Y Mynydd Bychan
**Caerfyrddin**
7 Siop y Pentan - Brieg Dafydd, Y Farchnad
141 Olwen Gibbon, Brynberllan, Heol Llysonnen
167 Dewi a Sioned Snelson, 4 Trem y Coleg
168 Caleb, Gwilym ac Osian Snelson, 4 Trem y Coleg
198 Rosemond Halls, 2 Plas y Milwr, Heol y Priordy
203 Mr. a Mrs. V H Thomas, 138, Heol Llansteffan
238 John a Heather Phillips, Gogerddan, Heol Abergwili
286 Ralph Beardmore, 28 Brynteg, Pentremeurig
360 Rose Beardmore, 28 Brynteg, Pentremeurig
392 Ray Griffith,16 Hafod Cwnin
445 Glenys Jenkins, 68 Maes Pedr
485 Einir Rees, 15 Heol Spurrell
604 Einir Rees A/R, 15, Heol Spurrell
608 Hana a Tomos Rees, 30 Maes Pedr
683 Kevin Bowen, 18, Bryn Gorwel
774 Ernest Jone, Yr Hafan, 59 Heol Bronwydd
775 Janet Jones, Yr Hafan, 59 Heol Bronwydd

780 Rose Beardmore, 28 Brynteg, Pentremeurig
781 Ralph Beardmore, 28 Brynteg, Pentremeurig
**Casnewydd**
205 Michelle Ateyo-Thomas, 29 Obama Grove, Rogerstone
617 John a Dianne Thomas, 23 Caernarfon Drive, Rhiwderin
**Castell Newydd Emlyn**
206 Iori Rees, Hendre, Adpar
712 Twm Elias Davies, 4 Swn yr Afon
**Cas-Wis**
456 Celyn Lewis, Fferm Dollaston
191 Siân Lewis, Fferm Dollaston
499 Owain Lewis A/R, Fferm Dollaston
**Cefn y Pant**
147 Elfed Owen, Lan
207 Dai a Mary Evan, Cnwcyrhiw
330 Grismond a Mary Lewis, Llwynllwyd
447 Haulwen Lewis, Cefn y Pant House
153 Martin Lloyd, Argoed, **Cilgerran**
**Cilgeti**
158 Alan ac Iris Newman, Kenmar, Jeffreyston
684 Elin Phillips, Y Mans, Cresswell Quay
770 Claire Adams, 48 Park Avenue
771 Charlotte Shearsby, 48 Park Avenue
555 Eirlys Jones, 4 Dan-yr-Eglwys, Y Mot, **Clarbeston Road**
**Clunderwen**
83 W.J. Kenneth Davies, Trefnwyr Angladdau
84 Ifan Davies, Saer Coed
85 Edward John, Fferyllfa Clunderwen
86 T D Ladd. Nwyddau Haearn
87 Maelfa - Siop y Pentref
88 Gerald Llewellyn, Plymiwr
89 Kathy Phillips, Siop Trin Gwallt
90 R.M. Jones, Cyfrifydd
91 Peirianneg Marc James Cyf., Llwyncelyn
209 Heulwen Davies, 23, Heol y Gaer
213 Les a Val Owen, Llwynderw
215 Eira Phillips, Maes y Crugiau
216 Simon a Faith Wright, Broderwen
361 Hilary Watkins, Tý'r Iet, Jones Terrace
599 Gloria Gibby, Rhoshelyg, Bro Waldo
649 Delyth Roblin, Fferm Glynty
762 W.J. Kenneth Davies a'r teulu, Trefnwr Angladdau A/R
779 Eifion Griffiths, Felin Fach, Penffordd
561 David Evans, 13 Glan y Môr, Glan Conwy, **Conwy**
**Crymych**
5 Siop Sian - Jane Morgan
6 Carwyn Rees, Boomerang, Parc Gwynfryn
15 Siop y Frenni
18 Nia Phillips, Tŷ Bach Twt
19 Wyn Mathias, Garej Wyn
20 Bwyd y Byd
21 CBS, Masnachwyr Adeiladu
26 Ken Davies, Cigydd
32 Nia Llewellyn, Delwedd
33 Cennydd James , Adeiladwr
214 Delyth Owens, Cartref Uchaf
218 John 'Barley' Davies, 13 Maesmeigan
219 Rhiannydd Francis, Henffordd
220 Winnie James Phillips, Gwêl y Frenni, 4 Wellfield Grove
336 Sally Thomas, Cilhaul
527 Audrey Davies, Brynstop
656 Eirian a Hilary Edwards, 23 Maes y Frenni
658 Jessica a Zac Edwards, 23 Maes y Frenni

661 Ronnie a Brenda Lewis, Pen Talar, 27 Llain Drigarn
**Cwm Miles**
35 JTL, Plymiwr
390 Tony a Meinir Eynon, Penbompren
397 Beti James, Coedllys
227 Eleri Hughes-Gage,Tŷ Croes, **Cwmbach**
**Cwmfelin Mynach**
22 Brian John, Rose Garage
233 Wyn a Meirwen Evans, Y Felin
234 Nansi Evans, Penybont
237 Merched y Wawr - Cangen Gronw
239 Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon
240 Meleri a Buddug, Blaenffynnon
694 Rhys a Glyn Biggs, D/O Blaenffynnon
695 Lloyd a Mari Hart, D/O Blaenffynnon
**Cydweli**
326 Ffion, Cari ac Alaw, Ysgubor Uchaf, Pedair Heol
542 Dafydd ac Elin Evans, Ysgubor Uchaf, Pedair Heol
**Cynwyl Elfed**
142 Gerwyn Jones, Bryn Pedyll
382 David Baker, Llysmyfyr
**Dinbych y Pysgod**
242 Bronwen Hicks, Tŷ'r Ysgol, Redberth
550 Peter a Menna Lewis, 10 Lamack Vale
241 Peter Walton, Gerddi Gleision, Brithdir, **Dolgellau**
**Efailwen**
1 Russell Thomas JCB, Copper Beech
9 Caffi Beca - Robert James
11 J K Lewis a'i Fab - Carwyn a Sian James, Glandy Cross
30 Dennis Jones a'i deulu
52 Huw Owens, Saer Coed, Dan y Coed
96 Aeres Williams, Hyfforddwraig Yrru, Glandy Cross
104 Gwion Jenkins, Rhosfach
105 Guto Jenkins, Bar Beca Efailwen
106 Bar Beca Efailwen
197 Merched y Wawr-Cangen Beca, D/O Eilir Davies, Tŷ Rhos
244 Eilir Davies, Tŷ Rhos
246 Andrew a Rhian James, Arosfa, Bro Deirian, Glandy Cross
248 Iwan a Meinir Jenkins, Fferm Rhosfach
249 Gwyneth Jones, Pengraig Uchaf
250 Gwyndaf Lewis, Bro Beca
251 Nia Lewis, Bro Beca
252 James Morris, Talar Wen
254 Hefin Parri-Roberts, Bryn Glandy
255 Keith Thomas, Rhos-Inn
256 Janet Wheeler, Clyngwyn
281 Ceirios Jenner, Gwêl y Meini
319 Anthony Jenner, Gwêl y Meini
350 Dorothy Williams, 5 Rhoswyn
551 Angharad Wyn Booth-Taylor, Golwg y Grug, Glandy Cross
688 Angharad Wyn Booth-Taylor, Golwg y Grug, Glandy Cross
744 Jean Jones, Talar Wen, Efailwen
766 Betty Davies, 2 Rhoswyn
` **Gellywen**
257 Kathie Dubben, Myrtle Hill
258 Phil a Jiwli Higginson, Llysygwynt
305 Derrick Harries, Felindre
638 Gwyndaf a Janet John, 40 Beech Waye, **Gerrards Cross**
**Glandwr**
25 D E Phillips, Trydanwyr, Tanybryn
243 Keith a Mair Davies, Brynderi
519 Esme Williams, Rhydcoedbach,
473 Raymond a Barbara Owen, Talybont, **Gwynedd**

**Hebron**

2 Rosemarie Davies, Cyfrifydd Technegol, Fferm Blaenwaun
3 Wyn Davies, Cwmni Adeiladwaith, Fferm Blaenwaun
508 Vivian a Beryl Williams, Llysifor

**Hendygwyn**

36 Cwmni Peirianneg Hen Dŷ Gwyn (Whitland Engineering)
37 Geoffrey Rees, Deintydd
38 Mark John, Cigydd
39 Station House Hotel
40 Allsortz
41 Gwasanaeth Trydanol RMD
42 Bysiau Cwm Taf
46 Ron Organ, Plymiwr
47 Allen a'i Bartneriaid, Milfeddygon
50 Davies, Masnachwyr Adeiladu
51 Riverlea - Richard Merriman
56 Meddygfa Taf
58 Gerald Blain - Cymdeithion Cyf.
60 David Lewis, Garej Central
63 David Harries & Co.
64 Wynne Phillips, Canolfan Dryciau
65 Jeff Court, Station Garage
66 Clwb Rygbi Hen Dŷ Gwyn
68 Gareth Glanville, Saer Coed
69 Gwasanaeth Ceir Hen Dŷ Gwyn - S. Owens a D. James
70 Huw Thomas, Peiriannydd Amaethyddol, Heol y Gogledd
76 Huw Jones, Adeiladwr, Dorset House
78 G. a J.M. Phillips, Contractwyr Trydanol
79 G.P. Architecture Services, Dylunwyr Adeilada Preswyl
80 Colin J. Harries, Cigydd
81 Siop Premier Hen Dŷ Gwyn
93 Neil Jenkins - Gwasanaethau Adeiladu
118 Colin John - Llewelyn Davies
124 Eirlys Davies, 44, Rhodfa Dewi Sant
125 Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda
126 Mike Faulkner, Saer ac Adeiladwr
261 Aled Adams, Llain-Alaw, Gerddi'r Ffynnon
262 Cian Rees, Parc yr Arfau, Heol y Gorllewin
263 Doreen Adams, Llain-Alaw, Gerddi'r Ffynnon
264 Gerald ac Eileen Blain, Tegfryn Taf, Gerddi'r Ffynnon
269 Brian ac Eilona Evans, Briona, Heol y Gogledd
270 Trefor Evans, Glyn Mynach, Heol y Gorllewin
271 T a V E J Evans, Henglos
272 Owen a Beryl Gibbin, Aweldeg, Heol y Gogledd
274 George ac Ann Glanville, Bryn Haul, Llwynpinner Fach
276 Roy Adams, Sunnydale, Heol y Gogledd
277 Dr. Malcolm a Mrs. Pearl Holding, Eltham House
278 Carys James, 31, Trevaughan Lodge
280 Ron Jenkins, Stryd y Gorllewin
282 Owain Jones, Cware, Llwynbrain
283 Carys Jones, Cware, Llwynbrain
291 Elonwy Phillips, Brynhawddgar, Gerddi'r Ffynnon
292 Gareth Phillips, Brynhawddgar, Gerddi'r Ffynnon
295 Ken a Cerrys Rees, Glyn Helyg, Heol y Gogledd
296 Rhian Rees, Glyn Helyg, Heol y Gogledd
300 Paul, Nerys a Cari Rogers, 16 Trevaughan Lodge
302 Eryl Rosser, West Regwm
303 David Rowlands, 30, Lôn Hywel
304 Haulwen Thomas, 2, Lôn Hywel
306 Elizabeth White, 8 Gerddi Trefychan
307 Valmai Whiteford, Tyddyn Owen, Gerddi'r Ffynnon
309 David a Jayne Williams, Pendre, Heol y Gogledd
362 Eileen John, Cartref Gofal Waungron
370 George Bancroft, Porth Ceri
372 Mary Bowen, Aelwyd, Heol y Gogledd
506 Jackie Rodgers, The Stables, Trefychan
513 Marc James, D/O Fferm Llwynpinner
547 Mel Jenkins, Ger-y-Nant, Trefychan
548 Terry a Sue Bowen, St. George's Cottages, Velfrey Road
563 Beryl Griffiths, D/O John Arfon Jones, Cilhaul
593 Rose Rickards, 5 Stryd y Brenin Edward
601 Hywel a Myfanwy Thomas 1, Brynderwen
609 Meinir Thomas, 5 Heol y Gogledd
614 John Arfon Jones,Cilhaul, Heol y Gogledd
629 Nesta Davies, Pen-yr-Ardd, Gerddi'r Ffynnon
630 Thomas Adams, Llain-Alaw, Gerddi'r Ffynnon
631 Megan Adams, Llain-Alaw
639 Iona Griffiths, Wern Ddu, 1 Stryd y Brenin Edward
648 Aeres Jones, Bronllys, Gerddi'r Ffynnon
650 Ithel Parri-Roberts, Preseli, 20 Heol y Brenin Edward
662 Doreen Brown - Maeshyfryd, Gerddi'r Ffynnon - A/R
680 Hoelion Wyth HDG a'r Cylch, D/O Dewi James
681 Dafydd Lewis, 13 Heol y Brenin Edward
696 John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd
699 Jean Parri-Roberts, Preseli, 20 Heol y Brenin Edward
700 Elgar a Rose Saer, 10 Stryd y Parc
720 Vivian ac Anne Morris, Maes yr Haf, Heol y Gogledd
734 Sheila Thomas, 12 Stryd y Santes Fair
765 Anne Williams, Crossing Cottage

**Henllan Amgoed**

113 Phil a Siôn Harries, Seiri Coed
311 Carwyn Davies, Blaenffynnon
312 Bleddyn Davies, Blaenffynnon
313 John Evans, Cilhengroes
339 Gethin ac Eleri Gibbin, Fferm Drefach
410 Lilian Rees, Rest
611 John Davies, Blaenffynnon
612 Valerie Davies, Blaenffynnon
221 Eric a Joyce Davies, Annedd, **Hermon**

**Hermon**

317 Lona Tomos, Pantyrysgol
318 Cris Tomos, Pantyrysgol

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300



IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469



W.J. KENNETH DAVIES
*ei Feibion a'i Ferch*
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
*Blaenwern, Clunderwen*
**Ffôn: 01437 563319**

**Hwlffordd**

134 Perlys John, 9 Tan Banc, Prendergast
143 Perlys John, 9 Tan Banc, Prendergast
315 Brian a Celia Crowdie, Garreg Lwyd
316 Gwynedd T. James MBE, 6 Dingle Lane, Crundale
347 Roy Morris, 127 Slade Lane
501 Michael Thomas, 54 Clover Park
594 Mal ac Enid Edwards, 22 New Road
625 Roy Morris, 127 Slade Lane

**Ledbury**

137 Beryl a Gareth Williams, Bramleigh, New Street
592 Harri a Lucy, D/O Bramleigh, New Street

**Llanbedr Pont Steffan**

192 Noeleen Davies, Wernfraith, Parc y Rhos, Cwmann
195 Dorothy James, Onllwyn, New Street

**Llanboidy**

17 Shwl di Mwl
49 Masnachwyr Adeiladu DP
62 Wyn Howells, Peintiwr
75 Jerry Williams a'i Feibion - Rodney Williams - Cloth Hall
97 Clwb Cymdeithasol Llanboidy
110 Owain Williams, O.R.W. T/A Dorian Phillips
122 Gwynlais a Mary Phillips, Merlais
132 William a Haulwen Davies, Stag
320 Susan Davies, Maes y Werin
321 Valerie Dixon, Penllwyngwair
324 Ken Kendall, Crudyrawel
325 Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol
328 Margaret Phillips, Waunfawr
329 Hubert Phillips, Waunfawr
357 Buddug Phillips, Merlais
467 Angela Murray - A/R, 2 Piccadilly
552 Nigel a Julie Thomas, Maesybryn
569 Ruth Meleri Davies, Stag
721 John a Wenfys Rees, Lan-Teg
24 Owen Phillips, Saer Coed
71 Gorsaf Betrol Preseli - Jeff Jenkiins, **Llanddewi Efelffre**

**Llandudoch**

557 Elfed John, Tiron
660 Huw Evans, Brynarfor, Cwmins

**Llandysilio**

14 Lamos, Beiciau Modur
29 Young Brothers Cyf.
43 Ffenestri MWJ
45 G. a S. Llewellyn a'u Mab, Contractwyr Amaethyddol
55 Adrian Llewellyn, Groundworks Cyf.
72 Huw Owen, Rhydymoch
102 Phillips & Morris, Adeiladwyr
103 Sonia, Siop Trin Gwallt
112 J.B. Owen
114 Angel Inn - George ac Anne Youngman
116 Dafydd Makepeace, Saer Coed
127 Evan ac Edith Davies, Brynglas
128 Ken a Nia Davies, Caeglas
208 Gillian Beynon, Bwlch y Ddwy Sir
337 Brenda Bowen, Blaendolfrwynog
338 Denzil a Cheryl Davies, Arosfa
341 Betty ac Einir Evans, Brynhyfryd
342 Gillian Gibby, Cysgod y Dderwen
343 Jean Griffiths, Springhill
345 Dylan a Maureen John, Hendre Fawr
346 Eilyr Thomas, Y Fedwen Aur
349 Anna Williams, Fern Villa
351 Elaine Llewelyn, Tŷ Uchaf
352 Melanie Llewelyn, Tŷ Uchaf
353 Anne Llewelyn, Tŷ Uchaf
354 Russell Llewelyn, Tŷ Uchaf
505 Teulu Llewelyn, Tŷ Uchaf
531 Vernon Beynon, Bwlch y Ddwy Sir
581 Bryan a Mair John, Pen y Berth
669 Annette Llewellyn, 4 Laburnham
738 Arwel a Ceris Llewellyn, Wernhyfryd
763 Gillian Gibby A/R, Cysgod y Dderwen
782 Tina Llewellyn, 1 Laburnham
783 Dona Llewellyn, 1 Laburnham
784 Wayne Llewellyn, 1 Laburnham

**Llandysul**

117 Tomos Dafydd Davies, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
120 Elan Mair Eynon, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
391 Aled Eynon, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
503 John Evans, Alltwen
579 Aled Eynon, 11 Cae Rwgan, Aberbanc
659 Iori Evans, Nythfa, Cross Inn
710 Graham a Mabel Adams, Garth, Panteg Cross
757 Tomos Dafydd Davies A/R, 11 Cae Rwgan, Aberbanc

**Llanelli**

202 William Rees, 9 Heol Innes, Felinfoel
211 Mari Rees, 9 Heol Innes, Felinfoel

**Llanfallteg**

466 Bruce a Sian Jackson, Parc yr Odin
746 Eufryn a Marion Davies, Penybont

**Llanfyrnach**

287 Beryl Vaughan, Tŷ Newydd, Clydau
497 Margaret Thomas, Troedyrhiw, Henfeddau
163 Wendy Evans, Sŵn yr Einion, **Llangain**

**Llanglydwen**

54 Ifan Lewis, Saer Coed
107 Steve Daniell – Monraker, Plymiwr, Tir y Bont
108 Eddie a Carlo Dunn, Reptile Tiles
463 Sue Phillips, Taf
465 Haydn Evans, Taf
512 Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

785 Jill Lewis, Lluest, Llanglydwen
504 Marion Jones, Maesderi, **Llangurug**
**Llangynin**
94 Aled Jones, Contractiwr
101 Carl Britton, C.J. Waste
111 Tomos Rees, Garej New House
174 Rhiannon Thomas, 4 Llys Coed
210 Cai Alexander Booth, D/O Rhian White, Garnwen
323 Noa Llewelyn Davies, D/O Gorwelion
367 Les Evans, Blaenycoed
369 Arwyn a Caroline Jones, Maesycoed
373 Mike a Llinos Morris, Blaenffynnonau
374 Hywel ac Ann Morris, Golygfan
375 Menna Parry, Erwlon
376 Don a Susan Phillips, Gorwelion
378 Roy Reynolds, Tymore
379 Y Parch. a Mrs. Rhodri Glyn Thomas, Llanddwyn
380 Lisa, Deian a Rolant, Llanddwyn
381 Llinos a Geraint, Carreg Lwyd
383 Mark a Rhian White, Garnwen
442 Neil Edwards, Pleasant View
489 Taliesin Scott Robinson, D/O Rhian White, Garnwen
515 Eifiona Lewis, 3 Llyscoed
517 Elfed Lewis, 3 Llyscoed
628 Elspeth Scott Robinson, D/O Rhian White, Garnwen
678 Kevin Roberts, Penybryn
708 Sarah Roberts, Penybryn
716 Mary Edwards, Pleasant View
**Llangynnwr**
578 Angharad Jones, 58 Penymorfa
732 Yvonne Griffiths-Rogers, 2 Penymorfa
**Llangynog**
253 Beryl Thomas, 1 Isfryn
487 Mair Griffiths, Penplas
675 Anne Davies, Ffynnon Seiri
621 Huw a Meryl James, Tyddyn, **Llanwinio**
523 Jac a Josh Lewis, 4 Maesolbri, **Llanybri**
682 Beryl John, Dolbetws, **Llanycefn**
541 Dr. Rhian Phillips, 20, Finchley Court, **Llundain**
**Login**
48 Jones Login
73 Wyn Davies a'i Frodyr, Adeiladwyr
398 Huw a Sue Jones, Cilowen Uchaf
399 Mefin Lewis, Huan Aur
559 Janet Harries, Spring Cottage
**Maenclochog**
736 Y Prifardd Eirwyn George, Delfan
737 Maureen George, Delfan
**Meidrim**
131 Ray ac Archie Lewis, 13 Lôn Ddewi
133 Ray ac Archie Lewis, 13 Lôn Ddewi
400 Dr. Bronwen Evans, Gwynfaes
402 Andrew ac Alun Howells, Eithinduon Isaf
403 Eirian Howells, Eithinduon Isaf
404 Gwawr Lewis, Neuadd
405 John Lewis, Talarwen, Heol Llanboidy
406 Patsy Lewis, Talarwen, Heol Llanboidy
407 Danny a Linda Newton, 2 Llangarthgynin
408 Sian Thomas, Tŷ'r Alma
409 Teulu'r Alma
412 Emyr Williams, Y Bwthyn
413 Eleri Williams, Y Bwthyn
510 Hefina Jones, Eithinduon Uchaf
607 Elliw ac Elen Thomas, Plaspau n
610 Wendy Thomas, Clyneri
624 Ray ac Archie Lewis, 13 Lôn Ddewi
647 Alun a Linda Davies, Waunolau Fawr
667 Ambrose Lewis, Neuadd
668 Jean Lewis, Neuadd
705 Elinor Jameson, Cil y Barcud
**Meisgyn**
439 Efa-Grug, Mari Elli a Betsi Haf Davies, 15 Windsor Drive
690 Non Morris, Tŷ Isaf, Heol Hensol
414 DJ ac Elfair Jones, Foelfeini, **Mynachlog Ddu**
**Penfro**
180 Margaret Titterton , 31 Rocky Park
418 Maldwyn Llewelyn, Hodgeston Farm
663 Dai Rees, 33 Whitehall Drive
772 Kathy Thomas, 17 Grove Way
**Peniel**
279 Dewi a Pam James, Sarnlas
331 Efan a Griff Thomas, Bray Hill
483 Agnes Evans, Maes yr Ysgol
**Pentlepoir**
692 Ted Nicholas, 74 Millfields Close
693 Menna Nicholas, 74 Millfields Close
109 Dilwyn Llewellyn, Dil Agri, **Pentregalar**
590 Olive Bowen, Lan-y-Groes, **Penybont**
427 Mirain a Heledd Francis, Heol Fforest, **Pontarddulais**
420 Daniel Hay, 28 Heol Dihewyd, Llantwit Fardre, Pontypridd
**Pwll-Trap**
199 Nesta Rees, Penybryn, Heol Bethlehem
204 Eirlys a Don James, 21 Parc Llwyncelyn
245 Celt a Shân Nicholas, Celan, Heol Bethlehem
265 Elspeth Scott Robinson, D/O Sally Davies, Lluest
266 Cai Alexander Booth, D/O Sally Davies, Lluest
284 Dorothy Jones, Llwyn-Teg, Lôn Wen
359 Graham John, Tŷ Capel Bethlehem Newydd
401 Eilir Davies, Ardwyn
421 Huw Davies, Glynderi, Lôn Ffynnongain
422 Sally Davies, Lluest, Lôn Ffynnongain
424 Ivy Edwards, 25 Gors Fach

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales LONDIS
01834 860227



R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

Gareth Glanville
SAER COED

Llwynpinner Fach
Hendygwyn ar Daf
SA34 0RA
Ffôn: 01994 240245
Symudol: 07779 112192
Gwaith safonol - cysylltwch am bris

| | |
|---|---|
| 429 | Ryland James, Cartref, Heol Bethlehem |
| 430 | Beti-Wyn James, Cartref, Heol Bethlehem |
| 431 | Don James, Hafan-Hedd, Clôs Nathaniel |
| 432 | Rita James, Hafan-Hedd, Clôs Nathaniel |
| 433 | Ann Jenkins, Crudyrawel |
| 434 | Ruth Jones, Llwynybryn |
| 436 | Iona Morgan, Ynyswen, Heol Bethlehem |
| 462 | Verian a Margaret Williams, Y Berllan |
| 475 | Heulwen Reese, Rose Brook, Lôn Ffynnongain |
| 478 | Cynwyl Davies, Ardwyn |
| 482 | Taliesin Scott Robinson, D/O Sally Daves, Lluest |
| 488 | Megan Phillips, Croeso |
| 549 | Arwel a Rhiannon Jones, Garthrhos, Lôn Ffynnongain |
| 564 | Rhys Thomas-Phillips, Garreg Lwyd |
| 567 | Eryl Phillips, Garreg Lwyd |
| 587 | Beti Wilding, 13 Gors Fach |
| 622 | Brian ac Eirwen Davies, 8 Parc Llwyncelyn |
| 635 | Gareth Phillips, Ysguborfawr |
| 643 | Arwel Edwards, 25 Gors Fach |
| 644 | Rhian Edwards, 25 Gors Fach |
| 645 | Jim a Mair Davies, 14 Gors Fach |
| 652 | John Holdcroft, Ger-y-Gors |
| 655 | Eiryth Holdcroft, Ger-y-Gors |
| 672 | Marlene Lewis, Hafan Glyd |
| 709 | Luca a Mila Inward, D/O Christine Evans, Maes yr Onnen |
| 713 | Rhonna Thomas-Phillips, Maes-yr-Awel |
| 733 | Delyth a John Evans, Crud y Wawr |
| | **Rhosan ar Wy** |
| 363 | Dawn Davies, 8 Penrice Mews, Heol Walford |
| 364 | Vicky Young, 8 Penrice Mews, Heol Walford |
| 377 | Jean Brown, 8 Penrice Mews, Heol Walford |
| | **Rhydaman** |
| 440 | Cennydd a Rhian Jones, 90 Heol Penygroes, Blaenau, |
| 481 | Sara Elena Jones, 90 Heol Penygroes, Blaenau |
| 500 | T J Finch, Cwmgiedd, 56 Brynmawr Avenue |
| 526 | Gwenno Rebecca Jones, 90 Heol Penygroes, Blaenau |
| 606 | Y Parch. a Mrs. Guto Llywelyn, Isycoed, Caebryn |
| | **San Clêr** |
| 4 | Llawn Cariad, Heol y Pentref |
| 8 | County Stores, Pobyddion - Wyndham Phillips a'i Feibion |
| 12 | Deri Page, Cigydd, Heol y Pentref |
| 13 | Pethau Olyv, Heol y Pentref |
| 16 | Ysgubor Bryncaerau |
| 23 | Lyndon George, Garej Blaenwaun, Heol yr Orsaf |
| 28 | Ifan Phillips, Canolfan Rehab |
| 34 | Cefin Vaughan, Ffotograffydd |
| 44 | All Pump Services - Haydn Lloyd |
| 53 | Cartref Preswyl Y Garreg Lwyd |
| 57 | G. Williams, Seiri Meini Coffa |
| 59 | Masnachwyr Adeiladu Taf |
| 74 | Evans - Fferyllfa Medical Hall a Fferyllfa San Clêr |
| 77 | Europa, Ffasiynau Gwallt |
| 82 | Wynne San Clêr - Garej a Theiars |
| 95 | Yswiriant Cleddau - Eirian Page |
| 98 | Clwb Rygbi San Clêr |
| 99 | Eagle Signs |
| 228 | Margaret Rees, 1 Rhyd y Gors |
| 230 | Edith Heulwen Bowen, D/O Wilma Robins |
| 268 | Deina Jenkins, D/O Janette Jenkins, Glantaf House |
| 298 | Harri Dylan Bowen, D/O Wilma Robins |
| 299 | Diane Brown, Fern Bank, Heol Bethlehem |
| 314 | Don a Sheila Howells, 2 Cae Glas |
| 322 | Leia Jenkins, D/O Janette Jenkins, Glantaf House |
| 348 | Iori Jenkins, D/O Janette Jenkins, Glantaf House |
| 384 | Megan Beards, D/O Wilma Robins |
| 385 | William Beards, D/O Wilma Robins |
| 386 | Francesca Beards, D/O Wilma Robins |
| 388 | Wilma Robins, 13 Rhyd y Gors |
| 389 | Daniel Undabarrena Jones, D/O Wilma Robins |
| 393 | Alexia Jones, D/O Wilma Robins |
| 394 | Matilda Eira Bowen, D/O Wilma Robins |
| 411 | Peter ac Ann Crowdie, Parc View |
| 415 | Catrin Jones, Holmlea, Heol yr Orsaf |
| 416 | Jac Evan Morris, Holmlea, Heol yr Orsaf |
| 417 | Cai Osian Morris, Holmlea, Heol yr Orsaf |
| 425 | Hannah, Daniel a Kerry Reynolds, Santa View |
| 426 | Kay James, 3 Lôn Fair |
| 444 | Dewi Griffiths, Cartref Clyd, 16 Lôn Hafren |
| 450 | Iestyn, Rhys ac Eleri Page, Haulfryn, Rhiw'r Orsaf |
| 451 | Joan Picton-Davies, Tre Newydd |
| 452 | Tomos Rees, Tŷ Hawddgar |
| 453 | Robert a Lisa Davies, 24 Lôn Hafren |
| 455 | Beti Thomas, 4 Lôn Fair |
| 457 | Siôn Thomas, 7 Clôs Griffith Jones |
| 459 | Tegwyn Williams, 18 Rhyd y Gors |
| 460 | Dafydd Williams, Pentalar, Heol Meidrim |
| 461 | Nest Williams, Pentalar, Heol Meidrim |
| 464 | Meirion Morris, 38 Maes y Bryn |
| 476 | Dorian a Christine Anthony, Coedfryn, Heol Meidrim |
| 480 | Rhys Tomos Bowen, D/O Wilma Robins |
| 516 | Betsan Mair Bowen, D/O Wilma Robins |
| 518 | Osian Elis Bowen, D/O Wilma Robins |
| 536 | Owain-Llŷr Williams, Lower Court |
| 537 | Elin-Wyn Williams, Lower Court |
| 571 | Rhian Williams, 18 Banc Ostrey |
| 572 | Bethan Davies, Derlwyn Taf |
| 574 | Dorman Davies, Glasfryn Park, Rhiw'r Orsaf |
| 575 | Morfydd Davies, Glasfryn Park, Rhiw'r Orsaf |
| 577 | Richard Owen-Thomas A/R, Manarddwylan, Heol yr Orsaf |
| 589 | James Idris Bowen, D/O Wilma Robins |
| 600 | Telyn-Hâf Thomas, 18 Cae Gwyrdd |
| 602 | Cathryn Elward, 18 Cae Gwyrdd |

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos,
Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

642 Geraint Davies, Fferm yr Hendre
665 Vida Owen-Thomas, Manarddwylan, Heol yr Orsaf
673 Iola Wyn, Bryncaerau, Rhiw'r Ostrey
679 Meinir Thomas, Felinfach
701 Teulu Manor, Manor, Heol Salem
745 Tomos a Beca, 20 Cefn Maes, Rhiw'r Ostrey
750 Ioan Thomas, 18 Cae Gwyrdd
751 Eric Adams, Richmore House, Rhiw'r Orsaf
759 Masnachwyr Adeiladu Taf A/R, Heol yr Orsaf
761 Catrin Jones A/R, Holmlea, Heol yr Orsaf
764 Bethan Harries, Gorswen, 9 Pen y Ffordd
767 Ryan Thomas, 7 Clôs Griffith Jones
768 Ellie Thomas, 7 Clôs Griffith Jones
778 Ann Jones, Cwmteg, Backe

**Saundersfoot**

454 Melfa Smith, 7 Sandyhill Park
760 Gwilym Lawrence, 41 Bevelin Hall
67 Canolfan Arddio Tafarnspeit - Paul Webb, **Tafarnspeit**

**Talacharn**

92 Hywel Davies, Plymiwr - Davies y Gwres
423 Merrill Spratt, Cote Villa, Cross Inn
566 Ann Harry, Sunnyhill Cottage, Heol Holloway
584 Pam Jones, 14 Stryd Fictoria
603 Robert Elward, Tadil
605 Heulwen Elward, Tadil
368 Janet James, Dolwerdd, **Talyllychau**
285 Rhythwyn ac Ann Nicholas, Hafan-Deg, **Tegryn**

**Tre Ioan**

677 June Walters, 15 Parc Starling
758 Heather Williams, Lluest, 8 Heol Dyfnallt

**Trelech**

145 Beryl a Meirion Thomas, Penlan
340 Cedric Davies, Awelfa
396 Meinir Davies, Plasnewydd
443 Dafydd Evans, Ffynnonlwyd
469 Delyth Jones, Treto Isaf
470 Edith Ridley, 1 Caerwenog
484 Alyson Harries, Dinas Fach
494 Eric Harries, Dinas Fach
525 Bobbie Evans, Ffynnonlwyd
546 Maureen Rees, Blaendewifach
640 Eifion a Menna Thomas Jones, Brynsiriol
666 Ina Barnett, Clun View
674 Angela Marie, Yr Hen Swyddfa Bost
776 Emyr Jones, Treto Isaf
777 Liza Jones, Treto Isaf
441 Nia Morris, Woodstock Farm, **Woodstock**
472 Hafwen John, Preseli, 28 Cae Gadlas, **Y Bala**

**Y Bontfaen**

474 Sian Elin Jones, Y Grawndy, Llantriddyd
613 Bryan a Mearl Owen, 5 Tyla Rhosyr
358 Sally Evans, Meirion, **Y Glôg**

## Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2024

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn dathlu ymgyrch arwrol Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923-24, ac yn datgan yr angen i barhau gyda'r alwad am heddwch can mlynedd yn ddiweddarach.

Ganrif yn ôl, ar yr 19eg o Chwefror 1924, agorwyd cist Deiseb Heddwch menywod Cymru gyda'i 390, 296 o lofnodion o flaen 600 o fenywod yr Unol Daleithiau yn y Baltimore Hotel, Efrog Newydd.

Roedd y ddeiseb yn apelio am weld cydweithredu dros heddwch yn y byd, ac mae ei stori wedi ysbrydoli'r Urdd i annog criw o ferched ifanc i ddod at ei gilydd i lunio'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni.

Mae'r neges yn datgan yr angen i weithredu ac i barhau i alw am Heddwch. Rhaid rhoi diwedd ar erchyllterau, rhyfeloedd a thrais, gan nodi'n glir y gall cydweithrediad, angerdd a gobaith ein harwain tuag at ddyfodol gwell.




Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:- 01994 240857

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth ar eich cyfer chi a gobeithio y byddwch yn mwynhau. Mae'n braf gweld yr ardd yn dod yn fyw unwaith eto ond yw hi !
Pob lwc, *Albie*

*Falch iawn eich bod yn well. (Gol)*

**Cysylltwch y cymalau isod gyda 'bod' neu 'taw'**

1. Byddwn i'n dweud ………………..hi'n hen fenyw gas.
2. Awgrymodd Ffred…………………Dwi'n llawn o bechodau
3. Dw i'n hollol siwr …………………ti wedi cyrraedd mewn da bryd.
4. Wyt ti'n meddwl …………………..arna i mae'r bai?
5. Dw i'n gwybod yn iawn …………..Ffred sy'n gyfrifol.
6. Dwed wrth Fred ……………………e'n cwyno gormod.
7. 'Dyn ni'n meddwl ………………… ni'n rhy hen.
8. Y broblem yw ein……………………… ni ddim yn ddigon deallus.
9. Clywais i ……………………………hi ddim yn briod.
10. Wyt ti'n meddwl ……………………ddoe ces i ngeni.

**Cysylltwch y cymalau isod gyda 'bod', 'taw', neu 'y'**

1. Efallai …………………………byddai'n well 'sech chi ddim yn dod.
2. Gobeithio ………………………cei di amser da.
3. Dw i'n gwybod ………………..fi sy nesa.
4. Mae nhw'n gwybod …………..fe yw'r gorau.
5. Dwedodd y bos …… …………byddwn i'n hapus yn fy swydd newydd.
6. Dw i'n credu …………………..dw i'n gwella.
7. Ro'n ni'n meddwl …….. ……..ci oedd e.
8. Mae dyn y tywydd yn dweud ………. ………bydd hi'n braf yfory.
9. Dwedais i ………. ……… bydden nhw'n hwyl, on'd do fe !
10. Wrth gwrs ………. ………… dydd Sadwrn ddwedais i !
11. Mae'n bosib …….. ………… ro'ch chi'n iawn.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw

Llywyddwyd cyfarfod Mawrth gan Wenfys Rees ar brynhawn Mercher, 27ain o Fawrth ar festri Ramoth Cwmfelin Mynach. Dechreuwyd gyda'r cyfarfod busnes a thrafodwyd y materion oedd yn codi. Rhannwyd cofnodion y cyfarfod rhanbarth diwethaf a thynnwyd sylw at faterion oedd yn bwysig i'r aelodau. Dymunwyd benblwydd hapus hwyr i Meirwen Evans ar ddathlu penblwydd arbennig.

Ein gwestai oedd Janet Harries ac ar ôl i Wenfys ei chyflwyno aeth ati i arddangos sut i wneud eog mewn crwst, sbwng Genoese, cacen simnel a phaflofa. Aeth ati mewn ffordd ddi ffws a ddi ffwdan a rhannodd nifer fawr o gyfrinachau gyda ni er mwyn gwella ein sgiliau coginio. Cafwyd prynhawn hyfryd o werthfawrogi ei thalentau.

Diolchodd Wenfys iddi a braf oedd cael cwmni ei mam Rhiannon. Prynodd rhai o'r aelodau y danteithion a rhannwyd y paflofa ymysg yr aelodau. Enillodd Wenfys Rees y gacen simnel ac enillodd Susan Evans raffl y mis. Val, Llinos a Meinir oedd a gofal y te.



Wenfys Rees, Janet Harries a Mary Phillips gyda'r danteithion a grewyd.

Edrychwn ymlaen yn awr am Ebrill 24ain pan y byddwn yn croesawu Mari, Beti, Sian a Carol.

Nos Sadwrn, Ebrill 6ed aeth chwech o'r aelodau i ginio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty'r Cliff a chael gwledd hyfryd ac adloniant arbennig gyda 'Ar Ôl Tri'.

## Cangen Hendygwyn

Am unwaith roedd hi'n brynhawn braf pan ddaeth pedair ar bymtheg ohonon ni ynghyd i ddathlu ein Cawl Gŵyl Ddewi yng Nghanolfan Hywel Dda. Croesawodd Margarette bawb, yn enwedig y ddwy wraig wadd – Jane Morgan, ein Swyddog Datblygu, a Heather Jenkins o Glwb Gwawr Merched Hywel. Roedd cawl Christine yn flasus tu hwnt ynghyd â'r te a'r bara brith a'r cacennau cri oedd i'w ddilyn.



*Heather wrth yr allweddellau*

A'n boliau'n llawn, dechreuodd Heather chwarae rai o'n hoff ganeuon gwerin ar yr allweddellau a buon ni'n canu nerth ein pennau o dan ei harweiniad! Penderfynon ni nad oedden ni'n clywed hanner digon o'r hen drysorau yma. Ymgyrch Megan Creunant pan oedd hi'n Lywydd Cenedlaethol, 1980-1982, oedd i'n cael ni i ganu mwy o'n caneuon gwerin ac mae rhai ohonom ni'n ddigon hen i gofio hynny!

Buodd Jane wrthi'n ddyfal yn tynnu lluniau pawb er mwyn eu rhoi ar Wep-lyfr MyW ac yna diolchwyd i bawb oedd wedi cyfrannu tuag at brynhawn mor hyfryd.



Yr aelodau yn dathlu Gŵyl Dewi

Ar ôl derbyn gwahoddiad wrth Sefydliad y Merched i fynychu Twmpath Dawns yn y Neuadd Goffa o dan arweiniad Dawnswyr Talog, penderfynodd Jean a Margarette fynd i gynrychiolu'r gangen. Roedd hi'n noson hwyliog iawn ac ymunodd pawb yn y dawnsio ac fe geson ni gyfle hefyd i glywed hanes y dawnswyr medrus.

Ar Sadwrn, 6ed o Ebrill, aeth Ann Glanville, Jean Parri Roberts, Cerrys Rees a Margarette Hughes i Ginio'r Llywydd Cenedlaethol yn y De yng Ngwesty'r Cliff yng Ngwbert. Ymunon ni gyda'r sesiwn nos a phleser pur oedd gwrando ar 'Ar Ôl Tri' yn canu i ni yn ddigyfeiliant am bron awr cyn i ni fwynhau'r wledd foethus. Mor braf oedd cael cymdeithasu gyda'n gilydd – eneidiau hoff gytun.

## Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn Yr Hen Ysgol gan yr is-lywydd Eileen. Diolchwyd i bawb a oedd wedi mynychu'r Te Cymreig yn Y Gât ar Ddydd Gŵyl Dewi

Rhoddwyd gwybodaeth am gystadleuaeth Radi Thomas i'w chynnal ar nos Lun, Ebrill 29ain yng Nghlwb y

Cwins Abergwili. Bydd stondin sgarffiau a chadwyni yno a chyfarfod Rhanbarth.
Rhoddwyd gwybodaeth am "Llais" – sy'n ymchwilio i bryder am ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg ym myd iechyd ayb.

Pwyllgor Iaith a Gofal – Mynegwyd pryder am y defnydd o Saesneg ar Radio Cymru a S4C Gofynnir i aelodau nodi enwau'r caneuon a'r rhaglen a'u danfon i Swyddfa MyW.

Croesawyd Delyth Robinson, merch fferm Rhydcaernarfon, Llanwinio. Cafwyd hanes ei haddysg a'i gyrfa hyd iddi ddychwelyd i ffermio adre ar y fferm laeth. Soniodd yn ddifyr iawn am y datblygiadau ar y fferm, megis defnyddio robots i odro, a sut mae'r gwartheg wedi addasu, cyn mynd ati i son am yr arallgyfeirio mae hi wedi cyflwyno, sef gwneud sebon allan o laeth. Eglurodd sut y gwnaeth hyfforddiant ac esboniodd yn fanwl a diddorol sut mae'n creu'r sebon ac am y cynhwysion a ddefnyddir.. Cafwyd cyfle i deimlo ac arogli'r gwahanol fathau o sebon mae hi'n cynhyrchu a roedd nifer yn awyddus i brynu rhai.

Diolchwyd iddi ar ran y gangen am noson ddifyr ac addysgiadol iawn gan Marian. Roedd pawb wedi mwynhau.
Mwynhawyd lluniaeth blasus a ddarparwyd unwaith eto gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Jane ac fe'i henillwyd gan Janet.

## Cangen Beca

Gwnaeth aelodau'r gangen gyfarfod yng Nghaffi Beca ar brynhawn Iau, Mawrth 14eg i ddathlu gŵyl ein Nawdd Sant. Gwnaeth pawb fwynhau y cawl blasus a'r dewis o bwdin oedd wedi cael ei baratoi gan Robert. Diolchodd Angharad iddo ynte, ac i'r gwragedd a fu'n gweini.

Pleser oedd croesawu Brenda Thomas i'r cyfarfod, yr oedd wedi ymuno gyda ni am y tro cyntaf. Croeso hefyd i ddisgyblion o Ysgol Brynconin oedd wedi dod i'n diddori. Mwynhad oedd ei clywed yn llefaru, canu yn unigol ac mewn partion. Gwnaeth Angharad ddiolch iddynt ac i'w hathrawon am ddod atom - pawb wedi mwynhau yn fawr. Troi tuag adre wedi mwynhau prynhawn wrth ein bodd yn ddathlu Gŵyl Dewi.



Plant Ysgol Blaenconin yn diddori'r aelodau









Gwanwyn
Cafwyd stormydd enbyd 'leni,
A grym natur yn ein trechu.
Dyfeisiadau dyn yn ofer
wrth wynebu môr a'i gryfder.
N.E.

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Efallai i chi gofio i mi gyfeirio at nofel dditectif ddiweddaraf John Alwyn Griffiths cyn y Nadolig. Yn sgil hynny cefais fenthyg un arall gan ŵr hynaws a darllengar o Bwll Trap sef ***Dan Bwysau*** – honno'n rhagorol eto, yn dechrau ar draeth yng ngwlad Groeg, yn cynnwys damwain, llofruddiaeth, cyffuriau, puteinio, tîm pêl-droed ac yn teithio i Rwmania ac i'r Alban cyn y datrysiad ar y diwedd. Mae'r ditectif Sarjant Jeff Evans cystal bob tamaid â *Morse, Vera* ac *Endeavour*, ac yn wir i chi, mae troadau plot nofelau'r awdur hwn mor afaelgar nes bod rhaid anghofio am unrhyw waith tŷ! 'Mae iaith yr awdur yn rhyfeddol o gyfoethog, a'i fynegiant yn goeth,' yw'r sylw ar y broliant. A gwir hynny.

Rwyf wedi sôn am sawl hunangofiant hefyd o'r blaen ac un arall a ddarllenais yn ddiweddar yw un yr actores Marged Esli – ***Ro'n i'n arfer bod yn rhywun.*** Mae'n hynod o ddarllenadwy yn enwedig i un sy'n gyfarwydd â thafodiaith Ynys Môn ar ôl byw ym mhentref Bodffordd ger Llangefni am dair blynedd wedi i ni briodi. Mae'n dechrau braidd yn ddigalon gyda diagnosis o gancr a marwolaeth ei mam, y ddau yn ystod cyfnod Covid-19 ond yn y rhagymadrodd dywed bod ei phersbectif ar fywyd wedi newid wedi'r cyfnod tywyll hwnnw, a bellach, meddai, 'mae'n tueddu mwy at y melys yn hytrach na'r chwerw, y doniol yn fwy na'r dwys'. Dyna i chi gyfarwyddyd i ni bob un.

Bydd llawer ohonoch yn siŵr o fod yn ei chofio fel Nansi Furlong a weithiai yng nghartref Brynawelon yn *Pobol y Cwm* slawer dydd. Cyfeiria at lawer o gynyrchiadau i'n hatgoffa o raglenni a dramâu'r gorffennol, o raglenni plant fel *Bilidowcar* i ffilm gyntaf S4C, *Madam Wen* a llu o actorion Cymraeg. Un ohonynt yw Elen Roger Jones – a chwaer Hugh Griffith a enillodd Oscar am ei ran fel y Sheik yn y ffilm, *Ben Hur.* Roedd hi yn byw ar yr un stryd â ni yn Rhuthun pan oeddwn yn blentyn ifanc a phan fues ar ymarfer dysgu yn ysgol Llangefni yn y saithdegau, roedd ei merch yn athrawes yno ac yn cofio fy ngwthio yn y pram! Hi ddechreuodd wythnos ddrama capel Bethania gyda fy nhad yn y pumdegau pan oedd yn weinidog yno ac sydd yn parhau hyd heddiw rwy'n credu. Merch fferm yw'r actores ac mae'n trafod y cefndir hwnnw'n ddifyr a'i bywyd carwriaethol sy'n mynd â hi i aeafau caled perfeddion gogledd Canada. Cafodd gryn brofiad o actio dros y ffin hefyd gan sylwebu'n ddifyr ar ambell actor enwog. Yn nôl ei chyfaddefiad hi, 'lopsgows o atgofion' ydynt ond fe ges i flas anghyffredin ar yr arlwy.

Os mai cyfuniad o farddoniaeth a chwaraeon sydd at eich dant chi byddai'r flodeugerdd ddiweddaraf o stabl Barddas, ***Mae gêm yn fwy na gêm*** yn ddewis perffaith. Fe'i golygwyd gan Sioned Dafydd sy'n sylwebydd ar *Sgorio.* Does dim rhyfedd mai hi gafodd wahoddiad i lunio'r gyfrol gan fod llenyddiaeth a chwaraeon yn ei DNA. Yn ei rhagair dywed i'w mam-gu werthu ei thelyn flynyddoedd yn ôl er mwyn prynu tocynnau tymor i'r *Vetch* i'w gŵr a'i thri mab. Ei thad-cu yw Dafydd Rowlands, y prifardd a'r Archdderwydd ac mae dwy gyfrol o'i gerddi yntau ar y silff yma, sef ***Meini*** a ***Sobers a fi*** – ac mae llun ohono gyda'i eilun, y cricedwr Sobers, ar glawr y gyfrol honno. Oedd, roedd ganddo ddiddordeb ysol mewn criced ond hefyd mae'n debyg mewn rasio ceir Fformiwla 1 a daw teitl y flodeugerdd o gerdd o'i eiddo am Ayrton Senna. Dyluniwyd y gyfrol yn gelfydd– cyfrol hyfryd i'w rhoi yn anrheg.

---

Noson yng nghwmni

## Cleif Harpwood a Geraint Cynan

Bethlehem Pwll Trap

Mehefin 26ain 2024 am 7.30

£6 a £3 i blant a myfyrwyr

Cefnogir gan Gynllun Noson Allan

Cyngor y Celfyddydau

**C J Waste cyf.**

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR

*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*

***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***

Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*



Monumental Masons

*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# LLANGYNIN

Cydymdeimlad



Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Owen Lewis, Llwynbychan, a fu farw yn dilyn gwrthdrawiad ar yr A40 yn gynnar ddydd Llun y Pasg, Ebrill 1af.

Roedd Owen, a oedd yn 36 oed, yn cerdded ar yr A40 ar gyrion Caerfyrddin yn oriau mân y bore pan fu mewn gwrthdrawiad â char.

Syfrdanwyd yr holl ardal pan glywsant am y ddamwain erchyll a chydymdeimlwn yn fawr ag Alun a Janet ei rieni, ei chwaer Wendy, ei frawd -yng-nghyfraith Adrian, a'i neiaint Teifi, Tomos a Lois a oedd yn meddwl y byd o 'Wncwl Owen'.

Bu marwolaeth drychinebus Owen yn ergyd greulon ac yn golled enbyd a thorcalonnus i'w deulu ac i'r gymuned gyfan a gwelir ei eisiau yn fawr gan ei deulu a'i holl ffrindiau.

**Diolch**
Hoffai Caroline Jones, Maesycoed, ddiolch i bob un am y cyfarchion, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn 50 oed. Mae am ddiolch o waelod calon i bawb am eu haelioni a'u caredigrwydd wrth iddi ddathlu ei phen blwydd arbennig.

**Cartref newydd**
Pob dymuniad da i Rhys Williams, Clawddcam, Llangynin, yn ei gartref newydd yn Hendy - gwyn ar Daf.

**Gwellhad buan**
Cofiwn am Jim Martin, Brychan, sydd yn Ysbyty Glangwili ers tro bellach. Dymuniadau gorau iddo am wellhad buan.

**Noson Bingo**
Nos Fercher, Mawrth 27ain, cynhaliwyd Noson Bingo gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Capel y Bryn i godi arian ar gyfer y system wresogi a'r goleuadau newydd sydd wedi'u gosod yn y neuadd gyda chefnogaeth ariannol gan Gyngor Cymuned Llangynin.

Bu'r noson yn llwyddiannus dros ben, ac roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o gyfeillion o bentrefi cyfagos wedi dod i gefnogi'r fenter, yn ogystal â thrigolion Llangynin a'r plwyf. Glyn Rees o Sanclêr oedd yn galw, ac yn ystod yr egwyl bu'r gwragedd yn gweini te a choffi a bisgedi, a chafwyd cyfle i dynnu'r raffl. Enillwyd y gwobrau raffl gan y canlynol:- Cinio i bedwar a roddwyd gan dafarn y White Lion, Pwlltrap – Millie Morris; Potel o win a roddwyd gan Mary Edwards – Elin Jones; Potel o win a roddwyd gan Caroline Jones– Jane Little; Potel o win a roddwyd gan Marian Glyn Thomas - Sian Davies; pryd o fwyd i ddau a roddwyd gan Siop Sglodion Neil, Sanclêr – Ella Morris.
Cafwyd un gêm o Fingo Gwyddelig i gloi'r noson. Arwyn Jones a enillodd y wobr, sef taleb a roddwyd gan Colin Harries, London House, Hen Dŷ Gwyn ar Daf. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Caroline Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli. Gwnaethpwyd elw o £221.63 tuag at y gwelliannau yn y Bryn.

**Cystadleuaeth Addurno Ŵy Pasg**
Fore Sadwrn y Pasg, Mawrth 30ain, cynhaliwyd cystadleuaeth ddiddorol yn y Bryn, sef cystadleuaeth addurno ŵy Pasg. Trefnwyd y gystadleuaeth gan George a Lyn Burford ar gyfer plant ac oedolion yr ardal. Y gamp oedd addurno ŵy iâr (wedi'i ferwi'n galed) gyda phaent neu greon. Daeth nifer dda o gystadleuwyr o bob oed â'u hwyau Pasg lliwgar i gael eu beirniadu a'u gwobrwyo gan Mr a Mrs Burford. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ym mhob adran.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Elin a Llŷr Lloyd, Penlan House, ar enedigaeth merch fach, Maria Eleri, ar Fawrth 21ain. Llongyfarchiadau i Haydn Lloyd, Ffynnonlwyd, ar ddod yn Daid unwaith eto ac i Marlene Lewis, gynt o Ffynnonlwyd, sydd nawr yn hen famgu am y pedwerydd tro. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu i gyd.



Maria Eleri Lloyd yn cysgu'n sownd

Dymuniadau gorau i Haydn Lloyd ar ddathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Ebrill 11eg.
.....llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei gyfweliad diddorol ar Ebrill 2il gyda Shân Cothi ar raglen Bore Coffi ar Radio Cymru. Haydn yw Cadeirydd newydd Côr Meibion Caerfyrddin a bu'n sgwrsio'n ddifyr iawn am hanes y côr ac yn ein hatgoffa bod nosweithiau agored wedi'u trefnu ar nos Fawrth y 7fed/14eg a'r 21ain o fis Mai i ddod i wrando ar y bechgyn yn ymarfer a chyfle i ymuno â'r Côr hefyd. Mae Côr Meibion Caerfyrddin yn cwrdd ar nos Fawrth am 7 o'r gloch yn Festri Eglwys Crist, Caerfyrddin.



Shân Cothi a Haydn Lloyd

# MEIDRIM

**Henoed**

Ar Ebrill 2il croesawodd Glyn James 23 o aelodau. Ein gŵr gwadd oedd Mr Dai Rees o Benfro.
Bu'n Siarad â ni am ei waith gyda'r heddlu. Cawsom hanes "Operation Julie" a'r dilyniant o ddigwyddiadau a helpodd i ddal y gwerthwyr cyffuriau. Roedd yr hanesion gawsom ganddo yn ddiddorol tu hwnt ac yr oedd yn brynhawn hwylus iawn yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Meirion Morris.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 7fed pan fydd Mark Oriel yn siarad am ei waith. Wrth y te yn y cyfarfod yma bydd Lilian Rees, Jean Howell, Shirley Bowen a Gwynfor Price. Yn rhoi raffl - Meinir Thomas, Glyn Harbour, Sara Ellis a Hilda Mason.

# GELLYWEN

**Ainon**

Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth y Parchedig Llinos Edwards ar Fawrth 27ain. Dymuna pawb yn Ainon anfon eu cydymdeimlad dwysaf at yr holl deulu. Cawsom ddeng mlynedd llewyrchus iawn, o'r flwyddyn 2001 tan 2010, pan oedd yn weinidog gyda ni, a bu'r golled yn fawr pan gorfu iddi ymddeol. Coffa da amdani.

Cydymdeimlwn â theulu Kathie Dubben, Myrtle Hill, Gellywen, a fu farw yn dawel yn ei chartref ar ddydd Sadwrn, 16eg o Fawrth. Bu'n ymladd yn ddewr iawn yn erbyn ei hafiechyd ers misoedd ac fe gadwodd ei ffydd tan y diwedd. Daeth i Gellywen 47 mlynedd yn ôl ac yn ei geiriau ei hunain dyna'r lle gorau allai unrhyw un ddymuno byw ynddo. Byddai yn mynychu oedfaon eglwys Llanwinio yn gyson ac fe ymunai â ni yn Ainon yn ein hoedfaon Diolchgarwch a Nadolig bob blwyddyn a chymeryd rhan yn gyson.

Dymuniade gorau i Vivian Rees hefyd a fu yn yr ysbyty am gyfnod yn ddiweddar a braf dweud ei fod wedi gwella yn ddigon da i fedru cario mlaen gyda'i waith o ddosbarthu cig. Gwaith mae wrth ei fodd yn ei gyflawni.

Cyfarchion i John Arfon hefyd sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar a gobeithio erbyn hyn ei fod yn ôl yn ei gynefin ac yn mwynhau cymdeithasu gyda'i ffrindiau unwaith eto.

**Er Cof**

Cofiwn yn dyner am Eirlys Harries a fyddai yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Ebrill 27ain.

Cofio am y wên fach siriol,
Ail fyw y llu atgofion,
Maent yn drysor yn ein calon
Heddiw rwyt ym mreichiau'r Iesu
Gyda'r Angylion rwyt yn dathlu.

Yn dawel hiraethwn, gyda chariad y cofiwn.

Mary, Gwynlais, Derrick, Beryl, Lyn a'u teuluoedd.

# BLAENWAUN

Mae'r ardal yn cydymdeimlo â theulu y diweddar Roy Lewis Blaenpant gynt. Roedd wedi ymgartrefi yn ddiweddar yng Nghartref Gofal Maes Llewellyn, Castell Newydd Emlyn.

**Moriah.** Teithiodd yr aelodau i gymun undebol ym Mryn Iwan ar Sul, Mawrth 31ain. Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth .

Ebrill 7fed 10.30 Parchedig Gareth Ioan
Ebrill 21ain 2 o'r gloch Cymun. Dafydd Evans
Mai 5ed. 3.30 Cymun Parchedig Gareth Ioan
Croeso cynnes i bawb.

Mae'r paratoadau yn mynd yn eu blaen i gynnal cwrdd cwarter Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin ar ddydd Iau, 9fed Mai ym Moriah.
Cyfarfodydd am 10.30 a 1.30. Dewch i gefnogi.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**. Ym mis Mawrth cafwyd gwasanaeth Mrs. Annalyn Davies a'r Parchg. Huw George. Diolch iddynt.
Ar Suliau mis Ebrill bu Mr Hefin Wyn yn gwasanaethu yn oedfa'r Cymun a'r Parchg. Huw George yn oedfa'r bore ar Ebrill 14eg.

Mis Mai :-
Mai 5ed - Cymun dan ofal Y Parchg Ken Thomas - 10.30
12fed - Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yng Nghalfaria, Login. Oedfa Gymun dan ofal Alun Lenny, Caerfyrddin am 10.30.
Nos Fawrth, Mai 14eg; Oedfa'r Llywydd Eurfyl Lewis am 6 y.h.
Dymuniadau gorau i Angharad Phillips, Merlais yn dilyn anaf i'w braich yn ddiweddar.








# BANCYFELIN



Ymunodd rhai o aelodau Bancyfelin a Cana yn yr ordymdaith flynyddol i Gopa Bryn Myrddin ar bnawn Gwener y Groglith. Cariwyd y groes i ben y bryn a chynhaliwyd oedfa fer dan arweiniaid Y Parchg Beti Wyn James a Natalie Morgan. Mwynhawyd paned a chacen yn Allt Fyrddin ar ddiwedd y daith.



Daeth criw da ynghyd bnawn Sul y Pasg ar gyfer yr orymdaith flynyddol drwy bentref Bancyfelin. Dilynwyd hyn gan oedfa yn y capel, paned o de a byns y grog. Prynhawn bendithiol a llawen iawn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.



Ar ddydd Sul y Blodau, fe fu rhai o blant Ysgol Sul Capel Bancfyfelin yn plannu blodau. Hyfryd yw gweld lliwiau'r gwanwyn yn harddu'r tir o amgylch y capel. Diolch blant.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

**Ysgol Sul Cana**



Dyma lun o blant Ysgol Sul Cana yn wên o glust i glust wrth fwynhau helfa wyau ar dir y capel pnawn Sul y Pasg! Am joio!

## Gibeon

Cydymdeimlwn â Meirion a Margaret Williams a'r teulu, Lower Court ar farwolaeth eu brawd-yng-nghyfraith yng Nghaerdydd.

Cafwyd Oedfa Gymun ar fore Sul, Mawrth 17eg, o dan ofal y gweinidog. Cafwyd neges ddiddorol am y Swper Olaf a digwyddiadau'r Pasg. Diolch iddo am ei wasanaeth ac i Hilary am gyfeilio. Derbyniwyd Eryth Davies, Erwlas, yn aelod o'r Eglwys a braf yw cael ei chroesawu atom.

## Cylch Meithrin Bancyfelin



Pleser o'r mwyaf oedd cyflwyno siec i Gylch Meithrin Bancyfelin fel Maer Cyngor Tref Sanclêr a dymuno ymddeoliad hapus i Gill Lewis a Wendy Rees ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth clodwiw. Diolch iddynt am eu ymroddiad, gofal a chariad i genedlaethau o blant gan sicrhau y seiliau gorau posib iddynt.

# Pwll Trap

Trist oedd clywed am farwolaeth Valerie Mudge, Gors Fach wedi gwaeledd hir. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu colled.

Roedd Hazel Theophilus, Heol Bethlehem yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ddiwedd Mawrth. Dymunwn benblwydd hapus iddi.

Dymunwn benblwydd hapus hefyd i Eilir Davies, Ardwyn, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Ebrill 24ain.

Dymunwn wellhad buan i Eryl Phillips, Garreg Lwyd, sydd wedi torri asgwrn yn ei phigwrn tra ar ei gwyliau yn Awstralia. Croeso nôl o'u taith iddi hi a Rhys.

Tristhawyd yr ardal gyfan wrth glywed am farwolaeth Owen Lewis, Llwynbychan, mewn damwain ar y ffordd. Cofiwn yn arbennig am ei rieni a'i chwaer a'i theulu, ynghyd â'r teulu ehangach ar eu colled enbyd.

**Bethlehem Newydd**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth John Rees yn Sageston, yn 68 oed. Roedd yn fab i'r diweddar Barch. W. J. Rees a Mrs. Gwennie Rees. Cydymdeimlwn â'r teulu oll ar eu colled.

Cynhaliwyd oedfa yng Nghartref Dolyfelin ar Fawrth 14eg. Diolch i Marian am drefnu ac am yr unawd ac i bawb fu'n cymryd rhan.

Cynhaliwyd dathliad o Orsafeydd y Groes yn San Cler ar Nos Lun, Mawrth 25ain. Roedd hwn yn ddigwyddiad cyd-enwadol gyda'r bwriad o gyd-gerdded drwy San Cler yn cyflwyno darlleniadau a gweddiau yn y 14 gorsaf. Yn anffodus, oherwydd y tywydd, gorfod fu symud i'r Gat lle cafwyd oedfa hyfryd iawn o dan arweiniad y Parch Sarah Llewellyn gyda aelodau o wahanol eglwysi'r ardal yn cymryd rhan. Diolch i Rhys, Rhian, Meirion, Iona a Beti-Wyn am gymryd rhan dros yr Ofalaeth ac i bawb ddaeth i gefnogi. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a byns y Grog a phawb wedi mwynhau.

Yn Y Gât cynhaliwyd Oedfa Sul y Pasg a drefnwyd eto gan Marian. Cafwyd oedfa hyfryd gyda chynulleidfa niferus yn bresennol. Cafwyd darlleniadau a gweddiau gan yr aelodau a myfyrdod gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas, hefyd unawd gan Hefina. Cyfeiliwyd gan Hilary. Wedi'r oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a byns y Grog. Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r oedfa ac a fu'n gweini'r lluniaeth.







Ar fore Sul, Ebrill 7fed, cynhaliwyd oedfa gan yr aelodau yn Y Gât. Dilynwyd y gwasanaeth a ddefnyddiwyd ledled y byd ar Ddydd Gweddi'r Byd, gwasanaeth a baratowyd gan wragedd Palesteina cyn y gyflafan ddiweddar. Yn yr oedfa clywid hanes bywyd tair gwraig Gristnogol o Balesteina a theimladwy iawn oedd dysgu am eu profiadau a'u dyheadau. Diolch i Beti-Wyn am drefnu'r oedfa, i Hefina am gyfeilio, i bawb a fu mor barod i gymryd rhan ac i Ann a Janet am baratoi lluniaeth wedi'r oedfa.




the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

**RUSSELL THOMAS**

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR





Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

**Tŷ Croeso**

Trosglwyddwyd un car yn llawn o ddillad i Coda Ni a char arall yn llawn o ddillad ac eitemau babi i Plant Dewi yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu haelioni a'u parodrwydd i gefnogi.



# San Cler

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Phyllis Price, Lon Hafren. Yn enedigol o Langadog, roedd wedi byw ym Mancyfelin a San Cler am flynyddoedd lawer gan fagu ei theulu yma. Cofier amdani fel gwraig hynaws a charedig a oedd yn ofalgar iawn o'i theulu. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phlant, wyrion a'r gor-wyrion yn eu hiraeth a'u galar.

Adeg dathlu ei benblwydd yn 93 oed, yn lle derbyn anrhegion, casglodd Dewi Griffiths, Lon Hafren, £819 tuag at Prostad Cymru. Cynhaliwyd Bore Coffi yn Y Gat gyda swyddogion yr elusen yn bresennol pan gyflwynwyd y siec iddynt gan Dewi.



Cyflwynwyd siec o £400 i Sanclêr Men's Shed yn ddiweddar gan CKs Sanclêr fel rhan o'i casgliad cymunedol. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael.




Pleser o'r mwyaf fel Maer Sanclêr oedd cael cyflwyno siec i Sanclêr Men's Shed. Fel y gwelwch yn y llun isod maent yn grwp dawnus o ddynion sydd yn meddu ar bob math o sgiliau. Maent yn awyddus i wirfoddoli i wneud gwaith yn yr ardal er lles y gymuned maent yn rhan ohoni. Yr ydym yn ddiolchgar iddynt am bob cyfraniad.



**Cei Taf**

**Blwyddyn wrth y llyw**

Ym mis Ebrill 2023, mi ail-ffurfiwyd Ymddiriedolaeth y Dref (Town Trust) sydd yn warchodwyr o dri parsel o dir a dau adeilad, o fewn ardal Sanclêr, gan grŵp o 7 o wirfoddolwyr.

Un o'r adeiladau o dan ofal yr Ymddiriedolaeth yw'r Boat Club yn Stryd y Bont, a adeiladwyd yn 1975, gan y

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.






gymuned, ar gyfer y gymuned, tra'n ymhyfrydu mewn casgliad o ddigwyddiadau cymdeithasol ar yr Afon Taf ac ar y tir. Mae'r ardal yma wedi cael sawl pwrpas drwy hanes Sanclêr, wedi'i leoli ar y Cei oedd unwaith yn llewyrchus a sydd â hanes o longau'n docio yno gyda chysylltiadau â Môr Hafren ar gyfer mewnforio ac allforio ac yn ddiweddarach llongau hamdden a physgota.



Uchelgais Ymddiriedolaeth y Dref yw rhoi bywyd newydd i'r Clwb a'r Iard Cychod a gwneud y lleoliad unwaith eto yn un i'r gymuned i'w fwynhau a'i ddefnyddio. Mae gwaith yn cynnwys ceisiadau am grantiau ynghyd ag ymgynghori gyda phobl lleol ar waith ar hyn o bryd. Gyda help gwirfoddolwyr eraill, gan gynnwys Lewis sy'n 13 ar hyn o bryd, mae'r grŵp wedi rhoi gweddnewidiad fechan i'r lleoliad ac ar ôl tipyn o ystyriaeth ac ymgynghoriad gyda grŵp fechan o ddefnyddwyr, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i ail-enwi'r lleoliad yn Cei Taf yn unol a'i hunaniaeth blaenorol a'i leoliad fel cei.




Ym mis Rhagfyr 2023, croesawodd yr Ymddiriedolaeth 45 o gyn aelodau hir-oes blaenorol, yn nôl i'r lleoliad i ddathlu'r berthynas rhwng yr adeilad a'r Ymddiriedolaeth, ac mi drafodwyd yr uchelgais o ddychwelyd yr ymdeimlad cymunedol a phwrpas yr adeilad fel a fwriadwyd pan ei adeiladwyd yn 1975.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio ar yr adeilad Gradd 2 Rhestredig, Neuadd y Dref, Y Stryd Fawr, drwy ymgynghori gydag arbenigwyr a thîmau grantiau gyda'r weledigaeth uchelgeisiol o ddod â bywyd newydd i'r Neuadd sydd hefyd yn gyforiog o hanes. Ymdrechir i ail-agor y drysau ar gyfer gwneud defnydd gynhwysol ohono i'r gymuned yn y dyfodol.

**Cyngor Tref Sanclêr**

Pleser o'r mwyaf gyhoeddi bod Cyngor Tref Sanclêr wedi ennill y brif wobr ar gyfer Datganoli Gwasanaeth neu Brosiect Asedau Gorau yn ystod Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru a noddwyd gan Utility Aid a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-muallt ym mis Mawrth eleni.

Mae'r wobr yn cydnabod y gwaith diflino, arbennig mae'r Cyngor Tref wedi cyflawni wrth ymgymryd â chyfrifoldeb rhedeg Y Gât fel hwb i'r gymuned lleol gan gynnwys cefnogi busnesau drwy gynnig unedau gwaith, agor caffi, cynnig ystafelloedd i'w hurio ar gyfer sesiynau a gwasanaethau cymysg ac eang i'r gymuned fynychu. Gyda'r weledigaeth yma gwelwyd ailgynnau bywyd i adeilad yng nghanol y dref a chyfle newydd i gydweithio gyda thrigolion ar fenter gyffrous.
Rhoddwyd clod am y gwaith tu ôl i'r llenni sydd wedi bodoli drwy gynnal sawl ymgynghoriad cymunedol i gasglu data, barn trigolion a darparu dadansoddiad manwl o sut y gellid defnyddio'r adeilad i wella'r gwasanaethau a gynigwyd i'r gymuned. Ymhlith y materion hyn ystyriwyd gweledigaeth Cyngor Tref Sanclêr i gynnwys:

- cynaliadwyedd ar gyfer hirhoedledd;
- arallgyfeirio economaidd gan gynnwys creu swyddi, denu buddsoddiad a masnachu i gynyddu'r nifer o ymwelwyr;
- cynhwysiant cymdeithasol, mynediad at addysg, gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus;
- ystyriaethau amgylcheddol ac economi gylchol i leihau'r effaith amgylcheddol wrth hyrwyddo adeilad ynni effeithlon;

ac ar yr un pryd chadw a dathlu cyfanrwydd hanesyddol, diwylliannol a phensaernïol yr adeilad wrth frwy-







dro i gynnig cyfleusterau modern a chroesawgar. Gwelwyd bod asiantaethau yn defnyddio'r lleoliad, gyda digwyddiadau eang yn cymryd lle yn barod. Er enghraifft: Croeso Cynnes - hwb wythnosol i breswylwyr ymgynnull, sgwrsio a chael paned. Mynediad i wasanaethau sy'n cefnogi Lles, anghenion costau byw ac ati: drwy gymorth MIND, prosiect Celf Gofal, Age Cymru a darpariaeth Hwb Bach y Wlad a hyfforddiant (ymwybyddiaeth Ddigidol/Twyll).

Cydnabuwyd y camau nesaf sy'n cynnwys
Canolfan Casglu Sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus

- ail-frandio
- addasiadau mewnol ac ail beintio.
- effeithlonrwydd ynni
- gwefan bwrpasol ar gyfer Y Gât a system fwcio ystafelloedd (grant Deg Tref wedi'i sicrhau ar gyfer y uchod).
- Oergell Bwyd Cymunedol
- Sesiynau Hyfforddi –(Skills 24/Multiplication / grŵp Cymraeg) ac eraill.

Llongyfarchiadau i aelodau presennol a gorffennol y cyngor sydd wedi cyfrannu a sicrhau'r llwyddiant hwn. Am wybodaeth bellach neu os ydych am hurio ystafell cysylltwch ar gate@stclearstowncouncil.co.uk

# RHYDYCEISIAID

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â'r Parchedig a Mrs Guto Llywelyn, Mari a Dafydd ar farwolaeth tad Mrs Llywelyn sef Mr Harry Thomas, Betws Rhydaman - tad, tad-yng-nghyfraith a thadcu annwyl iawn.

**Llongyfarchiadau** i Llŷr ac Elin Lloyd, Penlan House ar enedigaeth merch sef Maria Eleri Lloyd
. ….hefyd i Mr Haydn Lloyd ar ddod yn ddadcu.
….hefyd i Mr a Mrs Richard Edwards, Llanymddyfri ar ddod yn ddatcu a mamgu.
….hefyd i Mrs Marlene Lewis, Hafan Glyd a Mrs Eirwen Lloyd, Rhuthin ar ddod yn hen famgu.

# LOGIN

## Calfaria

Oedfaon
Diolch o galon i Miss Natalie Morgan a Mr Hefin Wyn am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Mai: 12fed: Alun Lenny - Cymun am 10.30
26ain: Ken Thomas - Cwrdd am 2.00
Mehefin: 9fed: Hedd Ladd Lewis - Cymun am 10.30
23ain: Euros Jones Evans - Cwrdd am 10.30

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda John Davies ar farwolaeth ei chwaer sef Anita Williams, Blaenporth yn ddiweddar.
....hefyd â Nigel a Glesni Vaughan a'r teulu ar farwolaeth mam, mamgu a hen famgu annwyl iawn, sef Heulwen Davies, Llangynnwr.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Sian a Puw Davies ar ddod yn famgu a tadcu am y trydydd tro. Ganwyd merch fach o'r enw Lili Nora i'w mab a'i merch yng nghyfraith sef Stefan a Mari Davies. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Penblwydd**
Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Beti James fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar ddechrau'r mis.

**CYMANFA BEDYDDWYR**
**CAERFYRDDIN A CHEREDIGION**

## CYFARFODYDD BLYNYDDOL

## yng Nghapel Calfaria, Login

---

**Dydd Sul, 12 Mai, 2024 am 10.30 o'r gloch**

**OEDFA GYMUN**
**yng ngofal Mr Alun Lenny, Caerfyrddin**

----

**Dydd Mawrth, 14 Mai, 2024**

**10.30 – CYNHADLEDD**

**12.00 – OEDFA BREGETH**
**Pregethir gan Y Parchedig Rob Nicholls, Llundain**

**3.00 – OEDFA GENHADOL**
**Neilltuo Mrs Faith Wright, Calfaria, Login yn Llywydd y Senana ac anerchiad gan Sioned Graves**
***Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol***
***Undeb Bedyddwyr Cymru***

**6.00 – OEDFA'R LLYWYDD**
**Anerchiad y Llywydd Eurfyl Lewis, Calfaria, Login a neilltuo'r Parchedig John Treharne, Y Tabernacl, Llwynhendy fel Llywydd y Gymanfa am y flwyddyn 2024-2025**
***Eitemau gan Corlan a Beti a Siân***

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Margaret Griffiths, Waunfach, Login wrth golli mam, mamgu a hen famgu annwyl iawn, sef Phyllis Price, Lôn Hafren, San Clêr ar y 1af Ebrill yn 91 oed. Cynhaliwyd yr angladd ar 16eg Ebrill yn Amlosgfa Arberth. Rydym fel ardal yn meddwl am y teulu wrth golli person arbennig.

# CWM MILES

## Oedfaon

Ebrill 14eg: Cymun 2 o'r gloch - Elonwy Phillips
Mai 5ed: Cymun 2 o'r gloch - Euros Jones Evans. (os bydd ei iechyd yn caniatau).

Pob dymuniad da i Mary Llewellyn sydd wedi ymgartrefi yng Nghartref Gofal, Waungron. Rydym hefyd yn cofio am Bryan John sy'n dal yn yr ysbyty. Balch gennym nodi bod Geraint James, Coedllys ar wellad wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Yr aelodau a'r ardal yn dymuno yn dda iddynt.

Trist gan yr aelodau a'r ardal glywed am farwolaeth un o'i cyn weinidogion, sef y Parchedig Llinos Edwards, gynt o Cefnmwynant, Llanycefn a fu farw ar 27ain o Fawrth. Gweinidog addfwyn iawn ac uchel ei pharch. Cynhaliwyd gwasanaeth er cof yng nghapel Rhydwilym ar Ebrill 6ed dan ofal y Parchedig Peter Thomas. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys a'r teulu i gyd.

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Dathlodd y ganolfan ŵyl Dewi ar Nos Wener, 15fed Mawrth gyda noson o gawl a chân. Paratowyd yr ystafell, y cawl a'r teisiennau gan nifer o aelodau'r pwyllgor. Eraill yn rhoi caws, bara a gwobrau raffl.

Ar ôl cael llond bola, eleni hyfryd oedd croesawu Clive Edwards i'n diddanu. Rhaid cofio mae bachgen lleol yw Clive - "Cwm Miles born and bred". Cafodd ei addysg yn Ffynnonwen a rhannodd nifer o straeon difyr gyda ni wrth i'r atgofion ddod yn ôl. Mwynhawyd ei ddoniau yn fawr iawn a'i ffordd broffesiynol o gyflwyno ei ganeuon. Roedd yn noson arbennig a diolch i bob un wnaeth gyfrannu at lwyddiant y noson.

Mae'r aelodau yn brysur yn diweddaru y ganolfan er mwyn cyrraedd y safon angenrheidiol diogelwch tân.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y ganolfan ar nos Fawrth, 7fed Mai am 7.30. Cofiwch gefnogi.





Noson Cawl a Chân yng nghwmni Clive

Cyfarchion penblwydd hwyr i un o aelodau mwyaf gweithgar y ganolfan sef ein trysorydd, Beti James a ddathlodd benblwydd arbennig ar 2il o Ebrill. Dymuna Beti ddiolch o galon am y cyfarchion penblwydd.



Dyma lun o bedair cenhedlaeth - Margaret, Beti, Caryl, Efa ac Ella. Trefnodd Non a Caryl de prynhawn yng Ngerddi Aberglasni. Ffordd ddelfrydol i ddathlu.

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

## Cylch Meithrin Ffynnonwen











Pob lwc i Talula a Marshall yn ysgol Bro Brynach a Seb yn ysgol Beca. Pob lwc hefyd i Hadleigh a Finley sydd yn symud o'r ardal.

## Noson Bingo



Diolch i bawb am gefnogi ein noson bingo ac i'r Cynghorydd Dorian Phillips am alw'r rhifau. Codwyd £456 i'w rannu rhwng Cylchoedd Meithrin Ffynnonwen a Llandysilio.

# RHYDWILYM

Diolch yn fawr i Natalie Morgan a Hefin Wyn am eu gwasanaeth yn ystod mis Mawrth.

Ebrill 28ain: Oedfa gymun - Annalyn Davies - 2.00
Mai 12fed: Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yng Nghalfaria, Login
Oedfa Gymun dan ofal Alun Lenny am 10.30.
Mai 14eg : Cyfarfodydd y Gymanfa
Mai 26ain : Oedfa gymun - Parch Ken Thomas - 10.30

Achlysur trist fu cynnal angladd y Parch. Llinos Edwards yn y capel ar Sadwrn, Ebrill 6ed. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Peter M Thomas.

Daeth tyrfa luosog i'r gwasanaeth er mwyn talu'r deyrnged olaf i gymeriad annwyl iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad i Gwenda, Delyth, Non, Islwyn a'r teulu i gyd. Cofion annwyl amdani.

Mae nifer o'r aelodau yn anhwylus ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan i bawb.

# EFAILWEN

Dymunwn llwyr iachad i Tudur Lewis sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn yr Ysbyty.

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau mawr i Cerys Harries, merch Janet a David Harries, Roseberry, Llandysilio ar ei phriodas â Bleddyn Davies, yn wreiddiol o Landudoch. Priodwyd y ddau yng Nghastell Aberteifi ar ddydd Gwener, 5ed Ebrill 2024 a chafwyd y brecwast priodas yno hefyd. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau iddynt ar gyfer y dyfodol.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVC-U
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

## Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfu'r aelodau yng Nghaffi Beca yn ôl ein harfer a hynny ar nos Fercher, Mawrth 27ain. Coesawyd yr aelodau a'r siaradwr gwadd, sef Geraint James, Awen Teifi ynghyd gan y cadeirydd, Eifion Evans. Diolchodd Geraint yn gyntaf am y croeso ac am y gwahoddiad i siarad.

Dechreuodd wrth siarad am hanes y busnes a tharddiad y cyfan sef Siop DJ ac Awen Teifi. Soniodd am ei fagwraeth yn Wdig, a'i amser fel crwt ifanc yn Ysgol Wdig ac Ysgol Uwchradd Abergwaun. Nododd am y profiad da a fagodd yn ifanc iawn wrth helpu mas a gweithio yn y garej yn Wdig, cyn mynd ymlaen o hynny i werthu yswiriant ac wedyn i fod yn bostmon. Wedyn ar ôl priodi, prynodd Geraint a Sian siop yn Abergwaun a sefydlu busnes o'r newydd sef Siop DJ. Yna, gweld bod bwlch yn y farchnad a chyfle yn Aberteifi wedi i Siop y Castell gau.

Wedi hyn, aethant ati i sefydlu ail fusnes sef Awen Teifi a agorwyd yn gyntaf yng Nghanolfan Teifi yn Awst 1999. Prynont 23 Stryd Fawr, Aberteifi, ac agor yn y man presennol ym Mehefin 2001. Gwnaeth lleoliad y busnes a gofod ychwanegol, eu galluogi i gadw tipyn mwy o stoc e.e teganau a Lego ayyb. Yna aethant ymlaen i agor oriel o waith celf Aneurin Jones yn 2005, gan ehangu'r oriel ymhellach gyda lluniau Meirion Jones, ac yna ei wraig Joanna. Wedyn, fe wnaethant y penderfyniad i gau Siop DJ cyn diwedd 2006, gan fod y siop yn Aberteifi yn ffynnu'n fwy. Wedyn symudon nhw o Abergwaun, i fyw i ardal Eglwyswrw a chanolbwyntio ar y siop yn Aberteifi yn 2006.

Soniodd Geraint am y ffordd y mae wedi gweld llawer o newidiadau yn Aberteifi er budd y dref, ac mae'r nifer o bobl sydd bellach yn dod i Aberteifi wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni pawb, a diolchodd Geraint unwaith yn rhagor i bawb am y gwahoddiad. Diolchodd Eifion i Geraint am noson wych, cyn i ni fwynhau basned o gawl bendigedig Robert, diolch Rob.

# HENDYGWYN AR DAF

Mae'r diwrnod mawr yn agosáu i ni yn y Tabernacl, Hendy-gwyn. A'r diwrnod hwnnw yw Mai 19eg sef y dyddiad y byddwn yn cynnal oedfa i ddathlu 150 mlynedd o fodolaeth y capel. Mae'r oedfa yn dechrau am 2.00 y prynhawn a'r pregethwr gwadd fydd y Parch. Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr. Bydd lluniaeth yn dilyn yr oedfa a chroeso cynnes iawn i bawb ymuno gyda ni i helpu ni ddathlu.



**Clwb Hwyl y plant**

Mae'r Clwb Hwyl yn mynd o nerth i nerth ac wedi ail-ddechrau cwrdd ar ôl y Pasg a hynny bob dydd Gwener rhwng 3.30 a 4.30.

Daeth tymor arall yn hanes Cymdeithas y Tabernacl i ben gyda The Prynhawn ddechrau mis Ebrill. Y gŵr gwadd oedd Neil Jenkins, Hendygwyn ac roedd yn braf gweld cymaint yn bresennol.



Meurig James a Neil Jenkins

Cafwyd cyfle yn ddiweddar i ddiolch i Menna Lewis ar ôl iddi ymddeol o'i gwaith fel trefnydd rota y blodau, a hynny er mwyn canolbwyntio ar ei swydd newydd fel Ysgrifennydd Ariannol y capel. Diolch i Rose Rickards am fod yn barod i gymryd at y gwaith o fod yng ngofal y rota flodau.


PHILLIPS A MORRIS

ADEILADWYR



Central, Clunderwen

Symudol:
07775 697803
07920 060956




Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574



Menna Lewis ar y chwith a Rose Rickards ar y dde.

**Penblwyddi arbennig**







Mae nifer wedi bod yn dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar a hynny o 18 i 80 ! Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwyneth Davies (80), Eirian Davies (50) a Cerys Jenkins (18).

Ac yn olaf dyma'r hyn sydd ymlaen yr wythnosau nesaf yma gan gynnwys y diwrnod mawr ar Mai 19eg. Croeso i unrhyw un ymuno gyda ni unrhyw amser i addoli - bydd croeso mawr yn eich disgwyl chi.

Oedfaon mis Mai yn y Tabernacl, Hendy-gwyn :
(Clwb Hwyl am 3.30 bob dydd Gwener)
Mai 5ed : 9.30 : Oedfa Gymun
Mai 12fed : 11.00 : Oedfa
Mai 19eg : 14.00 : Oedfa Ddathlu 150 mlynedd o fodolaeth y capel
Mai 26ain : 11.00 : Oedfa



**Dydd Sul, Mai 19eg, 2024 am 2.00**

**Tabernacl – Hendy-gwyn**

**Oedfa i ddathlu 150 mlynedd**

**Pregethwr gwadd - Parch. Dyfrig Rees**

**Croeso cynnes i bawb**

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill, fel arfer, yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i John Arfon at ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Estynnwyd croeso cynnes gan Claude James y cadeirydd i'n siaradwraig wadd, sef Mrs Annalyn Davies o Bancyfelin. Mae Annalyn, ers sawl blwyddyn wedi ymddeol ar ôl gyrfa lwyddiannus ym myd addysg ac yn awr yn gwasanaethu ei chymuned gyda brwdfrydedd. Mae'n Faer tref San Cler ac yn swyddog cymunedol o dan adain Bethlehem Newydd, Pwlltrap. Yn ogystal mae'n cefnogi eglwysi ardal eang fel pregethwr lleyg.

Testun ei hanerchiad oedd Tŷ Croeso. Wrth edrych nôl i'r cyfnod clo a oedd yn amser gofidus ac anodd a'r capeli yn gorfod cau fe ddaeth daioni o'r cyfnod tywyll. Rhaid oeddd medddwl am bethau gwahanol a gosod seiliau cadarn i'r dyfodol a tynnu sylw pobl i fodolaeth y capel a bod gweinidogaeth i gael yn yr ardal.

Penderfynwyd addasu'r capel i fod yn adeilad aml bwrpas drwy gael gwared o'r hen seddau pren, ail osod y llawr drwy ddefnyddio'r blociau gwreiddiol a lleoli caffi yn yr adeilad.

Gwireddwyd y weledigaeth gyda Undeb yr Annibynwyr, ar ôl gwneud cais, yn barod i ariannu'r prosiect gyda grant o £50,000 dros pum mlynedd. Roedd hyn yn cynnwys cyflogi, yn rhan amser, swyddog cymunedol i gydlynu'r gwaith a fe geisiodd Annalyn am y swydd a bu'n llwyddiannus.
Drwy arweiniad Annalyn a gyda chefnogaeth gweinidog ac aelodau Bethlehem Newydd heb anghofio cefnogaeth

pobl yr ardal oedd ddim yn perthyn i gapel, cefnogwyd llawer elusen fel Lloches i Ferched yng Nghaerfyrddin, Llyfrau Llafar, mudiad Coda Nia, Plant Dewi ac eraill. Hefyd, trefnwyd digwyddiadau cyffrous i godi arian ac mae'r Parch Rhodri Glyn Thomas yn ysgrifennu cylch lythyr yn rheolaidd yn cynnwys myfyrdod ac mae pobl sydd ddim yn mynychu unrhyw gapel neu eglwys yn derbyn copi.

Roedd hwn yn gyflwyniad gwych a brofodd nad oedd dim yn dywyll yng ngolwg Annalyn a diolchwyd iddi gan Ithel Parri Roberts.

Yn dilyn, cafwyd trefniadau'r daith ddirgel gan Mel Jenkins gyda chroeso i ddynion sydd ddim yn aelod o'r hoelion i ymuno â'r daith.

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Mae 9 plentyn wedi gadael y Cylch Meithrin ac yn barod am addysg llawn amser! Hwyl fawr i Alis, Finley, Isabelle, Kody, Marnie, Noah, Oliver, Oskar a Ren, pob lwc i chi gyd yn Ysgol Llys Hywel ar ôl y Pasg, mwynhewch!



Cynhaliwyd disgo Pasg yn Neuadd Goffa Hendygwyn. Roedd yn braf croesawu Mr a Mrs Colin Harries, Cigydd London House, Hendygwyn, i feirniadu'r Cystadleuathau Pasg sef hetiau Pasg (Cylch Meithrin) a chardiau Pasg (Cylch Ti a Fi).
Roedd yr hetiau a'r cardiau o safon uchel iawn ac felly roedd yn anodd iawn iddynt ddewis yr enillwyr! Llongyfarchiadau mawr i bob un am gymryd rhan a diolch o galon i Colin ac April am roi o'u hamser ac am eu cefnogaeth barhaus.

**Enillwyr Hetiau Pasg**



Llongyfarchiadau i Ren (1af), Alis (2il) ac Ember (3ydd)



Plant bach y Cylch yn edrych yn bert iawn yn eu hetiau Pasg lliwgar.




Llongyfarchiadau i Ester (1af), Seth (2il) a Tomos (3ydd), enillwyr y Cardiau Pasg.

## Enillwyr Clwb 200 Cylch Hywel Dda

**Mis Mawrth**
1 - £80 - Rhif 22 - Andrew Seeley
2 - £40 - Rhif 60 - Barbara Edwards
3 - £20 - Rhif 73 - Manon Cornish

Diolch i bob un sy’n cefnogi’r Cylch

# PENYBONT

### C Ff I

Llongyfarchiadau i ddau aelod o'r clwb ar gael eu hethol yn noson Llysgenhadon 2024-25 CFf I Sir Gâr.
Fiona Phillips fydd y Llysgenhades eleni gyda Daniel O’Callaghan yn un o'r dirprwyon.



Daniel ar y chwith, Fiona 3ydd o'r dde

**Y daith dractorau:** Codwyd tua £500 ar gyfer elusennau CFfI Sir Gâr, sef Epilepsi Cymru ac Adran Ganser Ysbyty’r Tywysog Phillip. Roedd hi’n braf gweld bron i 40 o dractorau yn crwydro trwy’r ardal. Cynhaliwyd noson fingo yr un diwrnod yn Nhafarn Beca, a hoffai’r clwb ddiolch i Dylan Evans am arwain y noson.

**Gŵyl Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru:**
Bu nifer o aelodau’n brysur mewn sawl cystadleuaeth siarad cyhoeddus ar faes y sioe frenhinol:
1af - Siaradwr Gorau Cymraeg o dan 16 - Celyn Richards

1af - Tîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg o dan 16 - Celyn Richards ynghyd ag aelodau o glybiau eraill y sir
3ydd - Tîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg o dan 28 - Fiona Phillips, Elen Jones a Daniel O’Callaghan
3ydd - Tîm Siarad Cyhoeddus Saesneg o dan 28- Mared Evans ynghyd ag aelodau o glybiau eraill y sir.

Llongyfarchiadau i Celyn Richards, fu hefyd yn cynrychioli’r sir yn y Siarad Cyhoeddus Saesneg o dan 16.



Celyn Richards



Elen, Daniel, Fiona a Gwawr

**Diwrnod Gwaith Maes y Sir:**
Er gwaethaf prysurdeb y misoedd diwethaf, bu sawl aelod wrthi’n cystadlu yn Niwrnod Gwaith Maes y Sir yn Llanymddyfri:

3ydd - Gwion Jones-Howells yn yr Arwerthu dan 28
Llongyfarchiadau hefyd i Elan Thomas a Cerys Nicholas Jones fu’n cystadlu yn y Stocmon Hŷn, Olwen Roberts yn y Stocmon Iau, a Sion Evans a Llion Jones yng nghystadleuaeth y Fferm Ffactor.

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi’r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

HUW OWENS
Saer Coed
Dan-y-Coed
Glandy Cross, Efailwen
Clunderwen. SA66 7XA
01994 419315 • 07974 801672

# LLANDDEWI EFELFFRE

**Bethel**



Penblwydd hapus i Janet Phillips a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth bawb yng nghapel Bethel, Llanddewi.

# CLUNDERWEN



**Penblwydd Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Kath a Marc Llewellyn a fu'n dathlu 20 mlynedd o briodas ar 3ydd o Ebrill.

**Penblwyddi**

Penblwydd Hapus iawn i'r Parchg Huw George a fu'n dathlu ei benblwydd yn 65 oed ar ddiwedd mis Mawrth. ....hefyd i Catrin Boulton a oedd yn 40 oed yn ystod mis Mawrth.

# LLANDYSILIO

**Genedigaeth**

Llongfarchiadau mawr i Jess a Dyfed Cynan ar enedigaeth mab bach. Ŵyr i Sonia a Julian Robinson, Parc-y-Bryn, Llandysilio.

....hefyd i Catrin a Simon Attwell ar enedigaeth mab bach ar yr 22ain o Fawrth - ŵyr arall i Sandra a Huw Morris.

**Penblwyddi**

Penblwydd Hapus i Sandra Morris a oedd yn 60 oed ar 10fed o Fawrth.




# LLANBOIDY

**Trinity**

Mae aelodau Trinity yn cydymdeimlo a'r gweinidog, Guto Llywelyn, ei wraig Catrin a'r teulu wedi i Catrin golli ei thad yn ddiweddar.

Ar ddydd Gwener y Groglith, ymunodd aelodau Tabernacl a Bethel ag aelodau Trinity a cafwyd oedfa bendithiol o dan ofal y gweinidog, gydag aelodau yr ofalaeth yn cymeryd rhan. Croesawodd gwragedd Trinity pawb i'r festri wedi'r oedfa i fwynhau te a byns crôg

**Chwaeroliaeth**

Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar brynhawn Mawrth

**H THOMAS a'i FAB**
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

22ain o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb ynghyd a'r gwestai sef Nia Davies o Landysilio. Rhoddodd arddangosfa o drefnu blodau ar gyfer y Pasg. Rhoddwyd y blodau a drefnwyd fel gwobrau raffl a diolchodd Wenfys i Nia am ei haelioni a'i hamser. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Dorothy Morris, Susan Davies ac Heulwen Evans.

**Sefydliad y Merched**

Cyfarfu'r aelodau yn y Neuadd ar Fawrth 14eg o dan lywyddiaeth Denise Harris. Crosawodd hithau'r aelodau ar gwestai Mr Bruce Wallace. Cafwyd araith a lluniau diddorol ganddo'n olrhain hanes Bancyfelin a diolchodd Denise iddo. I ddilyn, cafwyd trafodaeth busnes ac atgoffwyd yr aelodau bod y tâl aelodath yn ddyledus ym mis Ebrill. Mae'r aelodau yn brysur yn paratoi ar gyfer Sioe y Sir o dan gyfarwyddyd Jayne Evans ac enillydd y cystadleuaeth ar gyfer gwneud cerdyn Pasg oedd Jan Griffiths.

# TRELECH

**Llongyfarchiadau** a phob dymuniad da i Joy Anthony, Glyndewi ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

....hefyd llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i ddau bâr sydd yn dathlu eu Priodas Aur yn y dyfodol agos sef Glyn a Myrtle Davies, Rhydygors a Penry a Mair Jones, Hafod.

# HENLLANFALLTEG

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Marc Beasley. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Elidyr, Diane a'r teulu i gyd.

…. hefyd estynnwn ein cydymdeimlad i deulu'r Parchg Llinos Edwards a fu yn weinidog yng Nghapel Henllan Amgoed am sawl blwyddyn. Cydymdeimlwn â theuluoedd Bryntaf a Blaenlliwe.


Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mai 2024** | | |
| Sad 11 | **Amgueddfa Sain Ffagan** | 1 |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 6 | Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks A Thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu | 1 |
| Iau 25 | **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** | 2 |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Mer 28 | **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** | 2 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Smal** | 5* |
| Sad 7 | *Grease, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** (Un sedd ar ôl!) | 2 |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl** | 5* |
| Iau 31 | *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* | 1 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerrd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 2 |
| Gwe 22 | **Marchnad Nadolig Manceinion** | 3 |
| Sad 30 | **Gwyl Olau Longeat a Briste** | 2 |
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy** | 5* |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 8 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**



**G. & J.M. Phillips**

CONTRACTWYR TRYDANOL

Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE

**Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412**

NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg



**DERI PAGE
CIGYDD**







Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*



**GT TYRES**



Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol

**Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE**

☎: **01239 612814 / 07765 034705**

# CYFRES Wenfro — Carped Blodeuog

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Daeth y gwanwyn i wenu ar Wenfro ac mae Gwen, y wenynen, wrth ei bodd â'r carped o flodau Llygad Ebrill sy'n gorchuddio'r llawr.

**Fedrwch chi ddyfalu faint o flodau mor felyn â'r haul, sydd ar y carped hudolus?**



**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/05/24**

**Leila Medi Thomas o Hendygwyn yw enillydd Cystadleuaeth Gwisg Gymreig**

Ateb: 1 – Dim sbectol, 2 – Lleoliad y genhinen, 3 – Y ddraig ar y faner, 4 – Daffodil gwyn, 5 – Un llaw, 6 – Llawes y crys, 7 – Lliw y sgwâr clwt, 8 – Patrwm y sgert, 9 – Lliw y bais, 10 – Lliw yr esgidiau.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓒ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL LLYS HYWEL

**Pel droed**



Da iawn i'r disgyblion uchod am gynrychioli'r ysgol yn wych yng nghystadleuaeth pêldroed Gorllewin Myrddin yr Urdd yn ddiweddar.

**Kirbcraft**



Mae blwyddyn 1 wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf yn dysgu am ddiogelwch ar yr heol.

**Disgyblion Newydd**



Croeso i'r plant Meithrin newydd sydd wedi dechrau gyda ni'n llawn amser.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Croeso**

Croeso mawr i'r chwech disgybl bach newydd sydd wedi dechrau gyda ni yn y Dosbarth Meithrin y tymor yma. Croeso hefyd i Mr Gilroy Thomas sydd wedi dechrau ei swydd newydd fel gofalwr yr Ysgol yn dilyn ymddeoliad Mr Henry Owen. Pob dymuniad da fel aelodau o deulu Ysgol Griffith Jones.

**Eisteddfod Rhanbarth**



Aeth criw o'n disgyblion i gystadlu yn Eisteddfod Rhanbarth Gorllewin Myrddin a gynhaliwyd eleni yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Unawd Blwyddyn 2 ac iau: Elijah Diong 1af
Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: Corey Rees 3ydd
Cyflwyno Alaw Werin Unigol Blwyddyn 6 ac iau: Cadi Jones 2il
Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau:
Parti Dosbarth Pwyll 2il
Côr Blwyddyn 6 ac Iau: Côr Griffith Jones 2il.
Llongyfarchiadau i bob un plentyn a fu'n cystadlu. Pob Lwc i Elijah yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Maldwyn ac i Ella Cooper a fydd yn cystadlu yn yr unawd ffidil.

**Diwrnod Trwynau Coch**

Penderfynodd y Cyngor Ysgol taw 'gwallt gwirion' a dillad coch oedd y thema ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch eleni. Codwyd £412.60 tuag at elusen 'Comic Relief'.

**Ymweliadau**

Aeth Côr yr Ysgol i ganu yn Hen Ysgol y Bord i ddiddanu aelodau o'r gymuned. Diolch i'r Clwb 60+ am y gwahoddiad ac i Mrs Jenner am hyfforddi'r plant.

Ar ddiwrnod olaf y tymor aeth Dosbarthiadau Dewi a Beca i fwynhau prynhawn o hwyl yn ardal chwarae meddal Canolfan Hamdden San Clêr.

**CRAFf**



Trefnwyd disgo Pasg ar gyfer y disgyblion gan y CraFf. Hefyd fe dderbyniodd pob plentyn gwningen Basg yn rhodd ganddynt cyn y gwyliau. Diolch yn fawr i'r aelodau am yr holl waith trefnu eto y tymor yma.

**Cystadleuaeth Hetiau Pasg**



Bu plant y Meithrin wrthi'n brysur yn creu hetiau Pasg ar gyfer cystadleuaeth yn yr ysgol. Fe wnaeth pob un plentyn ymdrech arbennig o dda. Da iawn bawb a diolch i Mrs Lynnette Phillips, Cadeirydd y Llywodraethwyr am roi o'i hamser i feirniadu.

# YSGOL BECA

**Eisteddfod Gylch**

Fel ysgol, yn ddiweddar rydym wedi bod yn brysur yn paratoi a chystadlu yn yr Eisteddfodau Gylch a Sir. Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Cylch yn Neuadd Maenclochog ar y 11eg o Fawrth. Da iawn i Hannah, Tomos, Asher, Osian, Letti ac Alun am eich holl waith caled a dangos llawer o hyder wrth gymryd i'r llwyfan i gynrychioli Ysgol Beca!

**Diwrnod Trwynau Coch**

Ar ddydd Gwener, y 15fed o Fawrth trefnwyd bod pawb yn gwisgo coch i gynrychioli'r achos. Buodd pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau trwynau coch a chodwyd £56 i'r elusen.

**Llwyddiant y Bingo Pasg**

Hoffwn fel ysgol ymestyn diolch enfawr i Gymdeithas Rieni a Ffrindiau Ysgol Beca am drefnu noson fingo llwyddiannus unwaith eto ar nos Wener, 22ain o Fawrth. Cawsom noson hwylus yn chwarae bingo gyda ffrindiau hen a newydd yr ysgol. Braf oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd.

**Dathlu penblwydd Mrs Twose**

Cafodd pen-blwydd pwysig iawn ei ddathlu gan aelod arbennig iawn o staff Ysgol Beca yn ystod gwyliau'r Pasg. Gyda theulu a ffrindiau agos, dathlodd Mrs Elinor Twose ei phen-blwydd yn 60! Ond cyn iddi fentro allan o'r ysgol, rhoddwyd anrhegion bendigedig gan holl blant yr ysgol. Roedd rhain yn cynnwys crys-t unigryw iawn yn llawn lluniau a chreadigaethau'r disgyblion arno, darn celf yn dangos ansoddeiriau i ddisgrifio Mrs. Twose, a chacen phen-blwydd arbennig yn rhoddedig gan y CRhA. Mawr obeithio eich bod wedi mwynhau'r dathliadau Mrs Twose, pen-blwydd hapus!



Mrs Twose gyda'i hanrhegion

# YSGOL HAFODWENOG

**Twmpath**

Cawsom twmpath yn yr ysgol eleni i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Daeth y disgyblion i'r ysgol mewn gwisg traddodiadol a chawsom wledd o ddawnsio yn ystod y prynhawn.

**Eisteddfod**

Cawsom lwyddiant yn yr Eisteddfod eleni eto. Llongyfarchiadau i'r canlynol: Côr, Parti Unsain, Parti Cerdd Dant, Iwan gyda'r clocsio unigol, Grwp clocsio, Dawns werin bl 6 ac iau, Ymgom (perfformiad theatrig o sgript) Diolch i'r rhai a fu'n hyfforddi. Ymlaen i Meifod!

**Cyflwyniad**

Bu aelodau o'r Cyngor Iechyd a Lles yn gwneud cyflwyniad i'r Llywodraethwyr yn ddiweddar. Da iawn i Heledd, Anest a Marley.



Thema Diwrnod Trwynau Coch eleni oedd tlodi ledled y byd. Felly penderfynodd aelodau'r Cyngor Ysgol ofyn am gyfraniad gan bob teulu er mwyn rhoi i'r banc bwyd lleol. Diolch i bawb am gyfrannu.

**Ffair Lyfrau**

Roedd ffair lyfrau yn yr ysgol cyn y Pasg. Llyfrau Saesneg gan Scholastic a rhai Cymraeg gan siop Awen Teifi, Aberteifi. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn mynd trwy'r dewis o lyfrau.

**Gala nofio**



Llongyfarchiadau i ddisgyblion Cae Glas am gymryd rhan yn y gala nofio. Da iawn Tywi am ennill y gala.

**Gweithgareddau'r Pasg**

Cafwyd brynhawn o hwyl ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Helfa wyau Pasg, cystadleuaeth hetiau Pasg a prynhawn llawn hwyl.

**Ffarwel Mrs Brain**



Cynhaliwyd gwasanaeth ffarwel i Mrs Catrin Brain cyn gwyliau'r Pasg. Braf oedd gweld y rhieni a'r Llywodraethwyr yn bresennol. Pob hwyl i Mrs Brain a diolch am bopeth.

# YSGOL BRYNCONIN

**Plant yn Canu yng Nghinio Merched y Wawr – Caffi Beca, Efailwen**

Diolch i Ferched y Wawr Cangen Beca am y gwahoddiad i ganu yn eu cinio blynyddol ar Ddydd Iau, 14eg o Fawrth yng Nghaffi Beca, Efailwen. Diolch i Deri Nicholas am arwain y cyfan a da iawn i'r criw o blant wnaeth lefaru a chanu.

**Eisteddfod Gylch**

Llongyfarchiadau enfawr i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Clunderwen ar Ddydd Llun, 11eg o Fawrth. Roedd pawb wedi ymdrechu'n galed ac wedi cystadlu i safon uchel. Rydym yn browd iawn o waith caled y plant. Roedd Ysgol Brynconin wedi ennill gwobrau ym mhob cystadleuaeth wnaethant gystadlu. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau:

**Cyntaf:**
Magi John – Unawd Bl.2 ac Iau
Ffion Beynon – Llefaru Bl.3 a 4
Deri Nicholas – Llefaru Bl.5 a 6
Parti Llefaru

**Ail:**
Heti Davies – Unawd Bl.3 a 4 a Parti Unsain

**Trydydd:**
Magi John – Llefaru Bl.2 ac Iau
Heti Davies – Llefaru Bl.3 a 4

**Eisteddfod Sir**

Llongyfarchiadau i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro ar Ddydd Sadwrn, 16eg o Fawrth. Dymunwn yn dda i Magi, Deri a'r Parti Llefaru yn y Genedlaethol!

**Cyntaf:**
Magi John – Unawd Bl.2 ac Iau
Deri Nicholas – Llefaru Bl.5 a 6
**Parti Llefaru**
Llŷr Blethyn – Adolygiad Ffilm
Poppy Hammersley – Adolygiad Ffilm
Ail: Cynan Makepeace – Adolygiad Ffilm
Trydydd: Luca Devonish – Adolygiad Ffilm
Osian Thomas – Barddoniaeth Bl.2 ac Iau
Ffion Beynon – Llefaru Bl.3 a 4



**Criced**

Cafodd disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 amser da yn datblygu sgiliau criced ar Ddydd Mercher, 20fed o Fawrth. Diolch i Adran Chwaraeon y Sir am drefnu y weithgaredd hon.

**Gwasanaeth Diwedd Tymor**

Braf oedd cael cynnal gwasanaeth diwedd tymor ar brynhawn Iau, 21ain o Fawrth i ddathlu gwaith da Ysgol Brynconin. Llongyfarchiadau enfawr i Anwen Harris am ennill Tlws Clwb Ffermwyr Ifanc am ddangos ymdrech a dyfalbarhad dros y tymor.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Thema'r tymor: O'r fesen i'r Dderwen**

Yn ystod tymor y Gwanwyn buodd y disgyblion yn astudio'r thema 'O'r fesen i'r Dderwen' ac yn cwblhau amryw o dasgau a gweithgareddau amrywiol yn ymwneud a'r thema.

Buodd disgyblion y Dysgu Sylfaen yn dysgu am stori Y Lindysyn Llwglyd iawn, am gylch bywyd anifeiliaid gwahanol a dysgu am o ble daw ein bwyd wrth astudio o'r fferm i'r plât. Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn astudio Mis Gwylio Adar y RSPB yn ogystal â thyfiant.

Yn dilyn ein thema mae'r disgyblion wedi bod yn ffodus i ddysgu am sut mae deorydd yn helpu sicrhau bydd wyau ffrwythlon ieir yn deori. Ar ôl i'r wyau fod yn y deorydd am dair wythnos cafodd y disgyblion oll y cyfle i weld sut roedd y cywion wedi tyfu yn yr wyau gan ddefnyddio golau gwres. Yn ystod wythnos olaf y tymor roedd llawer o gynnwrf a chyffro yn yr ysgol wrth i ni weld yr wyau yn deori. Cafodd y disgyblion gyfle i weld a dal y cywion bach cyn iddynt fynd i'w cartref newydd dros wyliau'r Pasg. Diolch i un o'n rhieni am alluogi ni i roi'r cyfle a'r profiad newydd yma i'n disgyblion.



Rhai o'r cywion wedi deor

**Ymwelwyr**

Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn i gynnal gwasanaeth i'r plant am hanes Dewi Sant ac yn ein hatgoffa o pam ein bod yn dathlu ei fywyd ar Fawrth y cyntaf.

Ar yr unfed ar ddeg o Fawrth daeth y Parchedig Shirley atom i sôn am draddodiadau sy'n gysylltiedig a'r Pasg a phwysigrwydd y groes.

**Noson Agored**

Ar yr ugeinfed o Fawrth cynhaliwyd Noson Agored yn yr ysgol. Hyfryd oedd cael croesawu rhieni i mewn i'r ysgol i edrych trwy holl lyfrau gwaith y disgyblion a gwerthfawrogi eu gwaith ardderchog yn ystod y ddau dymor blaenorol.

**Dathlu diwrnod Syndrom Down**



Ar yr unfed ar hugain o Fawrth codwyd ymwybyddiaeth ar gyfer Diwrnod Syndrom Down wrth wisgo sanau od. Cwblhawyd amryw o dasgau hwylus yn ystod y diwrnod.

*Disgyblion Dosbarth Gronw yn ei sanau od i ddathlu Diwrnod Syndrom Down.*

**Trip Cyfnod Allweddol 2**

Ar ddiwrnod olaf y tymor aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Barc Bywyd Gwyllt Cilgerran i ddarganfod mwy am drysorau byd natur. Aethon ar daith gwylio adar ar hyd y llwybrau cerdded yn ogystal a'r cuddfannau gwylio adar, a gwrando ar gân yr adar gwahanol a welsom. Dysgon am rywogaethau gwahanol a'u cynefinoedd wrth gwblhau helfa trychfilod. Cawsom gyfle i fwynhau yn y parc ac ymweld â'r siop.



Dyma rhai o ddisgyblion Meithrin wedi creu cartref i'r fuwch a'i godro





# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 3ydd Mai | DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Mai | NORFOLK - TRENNAU, LLONGAU a SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 11fed Mai | TEITHIO O AMGYLCH YNYS JERSEY | £795 | 7 Diwrnod |
| Iau 16eg Mai | ?????? PENWYTHNOS O DDIRGELWCH I RHYWLE ????? | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 20fed Mai | DEWCH i DDARGANFOD RHYFEDDODAU WEYMOUTH | £430 | 5 Diwrnod |
| Gwener 24ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £395 | 3 Diwrnod |
| Gwener 31ain Mai | (Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd) | £1,995 | 12 Diwrnod |
| Sul 2ail Mehefin | SIR GAER HYFRYD a PHENRHYN y WIRRAL | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 12fed Mehefin | CAINT HANESYDDOL - HISTORIC KENT | £495 | 5 Diwrnod |
| Mercher 12fed Mehefin | LLANDUDNO a TREN BACH YR WYDDFA. | £555 | 5 Diwrnod |
| Sul 16eg Mehefin | CRWYDRO CONNEMARA a'r ARDAL YN IWERDDON | £755 | 7 Diwrnod |
| Sul 23ain Mehefin | EASTBOURNE a Rheilffordd y "BLUEBELL" | £610 | 7 Diwrnod |
| Llun 1af Gorffennaf | ?????? TAITH DDIRGEL GYFRINACHOL yr HAF ??????? | £510 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'I Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Sul 7fed Gorffennaf | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £575 | 6 Diwrnod |
| Gwe 12fed Gorffennaf | Arfordir Gogleddol yr ALBAN a Llwybr y "ROUTE 500" | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Iau 18fed Gorffennaf | GWYLIAU BYR yn y "COTSWOLDS" | £295 | 3 Diwrnod |
| Llun 22ain Gorffennaf | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun29ain Gorffennaf | Ardal SHAKESPEARE - Stratford upon Avon a Kenilworth | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 4ydd Awst | Teithiau cychod a Rheilffyrdd Ager yn ARDAL Y LLYNNOEDD | £620 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 12fed Awst | Dewch I ddarganfod golygfeydd godidog AWSTRIA | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Llun 12fed Awst | HAMPSHIRE ISLAND a thaith ar Hovercraft i Ynys Wyth | £495 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 20fed Awst | Gwyliau Byr yn COLEFORD, Cas Gwent a "Forest of Dean" | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 21ain Awst | SIOE AGER a Hên BEIRIANNAU DORSET, BOURNEMOUTH | £425 | 4 Diwrnod |
| Sul 25ain Awst | DEVONSHIRE a ILFRACOMBE | £595 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**
**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**
**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Teithiau Undydd 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iau | 9fed Mai | Diwrnod Marchnad yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |
| Mawrth | 14eg Mai | Taith yn cynnwys tê prynhawn yng Ngwesty'r Cliff | £45.00 |
| Mawrth | 28ain Mai | Bathdy Brenhinol, Amgueddfa Glo a Distyllfa Jin Hensol | £65.00 |
| Mawrth | 4ydd Meh | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 18fedMeh | Caerdydd- Taylor Swift (dim yn cynnwys tocynnau) | £25.00 |
| Mawrth | 25ainMeh | McArthur Glen, Penybont ar Ogwr a Porthcawl | £20.00 |
| Sadwrn | 6edGorff | Sioe Awyr Abertawe | £18.00 |
| Mawrth | 23ainMeh | Taith i Dan yr Ogof (Gwyliau Ysgol) | £35.00 |
| Mawrth | 24ainGorff | Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarn |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus iawn i Twm Elias Davies a fydd yn flwydd oed ar Fai'r 18fed. Cariad mawr wrth mam, dad a'r teulu oll. Mae Twm yn fab i Elen a Dafydd ac yn ŵyr i Aled a Jennifer Davies, Ffostrasol ac Eurfyl a Jill Lewis, Llanglydwen.



Penblwydd hapus yn 2 oed i Nola, merch fach Dafydd a Kelly, Caerfyrddin. Cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd. xxxx




# Pel-droed Cerdded



Mae Elfan Dan Griffiths o San Cler yn chwarae pel droed cerdded i Gymru dros 65 mas yn yr Algarve. Y mis hyn, fe enillodd y gystadleua-eth ac wythnos wedyn fe enillodd eto yn Llundain, heb golli gêm.

Fe fydd Elfan Dan nawr yn mynd i gystadlu yng Nghwpan y Byd Meistri ym Manceinion yn mis Mai.

# Clwb Bowlio Mat Byr Hendygwyn

*Trefor Evans*

Unwaith eto y tymor yma roedd y clwb yn chwarae yn Ail Adran Sir Gaerfyrddin. Gyda mwy o dimau wedi ymuno roedd rhaid chwarae 22 o gemau gyda llawer o deithio o amgylch y sir. Gyda dim llawer o aelodau roedd yn aml yn anodd cael tîm llawn i deithio i ffwrdd. Er hyn llwyddwyd i chwarae y gemau i gyd ar amser a diolch i'r aelodau am eu hymroddiad. Ar ddiwedd y tymor, o'r 22 gêm a chwaraewyd, llwyddwyd i ennill 13 gan orffen yn bedwerydd yn y gynghrair. Roedd hyn yn ganlyniad digon boddhaol. I orffen y tymor mae'r aelodau yn chwarae cystadleuthau o fewn y clwb. Saib wedyn dros yr haf cyn ail ddechrau ym mis Medi. Mae bob amser croeso i aelodau newydd ac rydym yn cwrdd ar nos Fawrth yn Neuadd y Dref.



OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW

HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy, er does ddim llawer i fynd bellach.

**Tîm 1af**
Dros y mis diwethaf, mae'r tywydd gwael wedi chwarae rôl yn y ffaith taw ond dwy gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae, adref yn erbyn Crymych ac i ffwrdd yn erbyn Llechryd.

Isod mae canlyniad y gêm gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

Mawrth
23ain: Llanboidy 1 - 4 Crymych (Geth Scourfield)
28ain: Llechryd 3 - 2 Llanboidy (Geth Scourfield x 2)

**2il Dîm**
Un gêm mae'r 2ail dîm wedi chwarae, a hynny adref yn erbyn Aberteifi.

Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr:

Mawrth 30ain: Llanboidy 2 - 4 Aberteifi (Ryan Pearce x 2)

**Adran Iau**
Mae'r adran iau yn parhau gydag ymarferion a gemau ar benwythnosau. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno â'r timau derbyn, dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16 sydd gyda ni. Am fwy o wybodaeth - ewch ar dudalen facebook yr adran iau "CPD Llanboidy AFC Juniors".

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Bydd Noson Bingo yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Llanboidy nos Sadwrn, Mai 18fed am 7.30 er mwyn codi arian tuag at Adran Iau'r Clwb. Croeso cynnes i bawb.

*Rhodri Lewis*

CPD LLANBOIDY AFC

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**
Mawrth 9fed: Hendy Gwyn 10 - Gorseinon 26. Cais yr un i Rhys Nicholas a Trystan Rees.
23ain: Aberystwyth 36 - Hendy Gwyn 15. Cais yr un i Trystan Rees, Gino Setaro ac Owyn Griffiths.
30ain: Hendy Gwyn 0 - Llanelii 50. Mae'r bechgyn wedi bod yn chwarae'n well yn ystod ail hanner pob gêm, ond roedd amddiffyn y Crwydriaid yn gryf iawn a method y bechgyn a sgorio yr un cais yn ei herbyn. Mae'r Crwydriaid yn haeddu bod ar frig y gynghrair, chwarae teg iddynt.

Ebrill 6ed: Hendy Gwyn 22 - Pontarddulais 24. Colli o drwch blewyn ar ôl bod ar y blaen 15 i 7 ar hanner amser. Cais yr un i Zac France Miller, Geraint Jones a Harry Fuller; cic gosb a dau drosiad gan Geraint Jones. Mae wedi bod yn dymor siomedig i'r tîm wrth iddynt ddisgyn i Adran 2 y Gorllewin, ond dymunwn bob llwyddiant iddynt ar gyfer y tymor nesaf.

Pob dymuniad da i'r bois pan fyddant yn chwarae yn erbyn Aberdaugleddau yn rownd derfynol y Plat o fewn yr wythnosau nesaf.

**Menywod**
Dim ond un gêm mae'r menywod wedi chwarae yn ystod y 3 mis dwetha, oherwydd y tywydd gwael a timoedd yn tynnu allan achos bod ddim digon o rifau ganddynt i chwarae.

Ebrill 7fed: Blaendulais 30 - Hendy Gwyn 19. Er i'r merched golli yn erbyn tîm cryf Blaendulais, roeddent yn falch iawn cael bod nôl yn chwarae. Cais yr un i Marged Williams, Macey Bowen a Llinos Llewellyn (ei chais cyntaf i'r clwb) a dau drosiad gan Macey Bowen.

**Merched dan 16**
Cafodd tîm y merched dan 16 brofiad arbennig drwy chwarae yn rownd derfynol y Plat o dan 16 yn Stadiwm y Princiaplity yng Nghaerdydd ar y 23ain o Fawrth. Gwnaethant ennill 22-21 yn erbyn Cwins Caerdydd, wrth i Grace Fuller lwyddo gyda trosiad ym munud ola'r gêm. Sgoriwyd ceisiau Hendy Gwyn gan Rhianedd Green, Sophie Lewis, Sabrina Semaani ac Elen Morris. Cafodd y capten, Alice Morgan, bleser mawr i dderbyn y Plat, ar ran y tîm, o flaen cefnogwyr brwd Hendy Gwyn yn stadiwm eiconig y Principality. Llongyfarchiadau anferthol i chi ferched ar eich llwyddiant!

Mae Hwb y Teigrod wedi dechrau nôl ac yn cwrdd pob nos Fercher rhwng 6 - 7pm. Bydd hyn yn digwydd yn wythnosol tan fis Gorffennaf, yn agored i ferched o dan 8, 10, 12 a 14 oed. *Suzanne Davies*


Tîm merched dan 16



# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr



**Tim Cyntaf - Pencampwyr Adran 2 y Gorllewin**
Wrth i ni agoshau at gemau olaf y tymor, roedd angen un ymdrech arall arnom i sicrhau dyrchafiad i Adran 1 y Gorllewin.

Ar Fawrth 23ain buom yn ymweld â'r Mwmbwls gan geisio sicrhau buddugoliaeth ac o bosib pwynt bonws, i gadw uwchben y timau oedd yn ein cwrso. Roedd y gêm yn y fantol am yr hanner awr agoriadol ac yn rhyfedd iawn, ni sgoriwyd unrhyw bwyntiau, er gwaetha'r ffaith bod ciciau cosb wedi ei cyflwyno i'r ddau dîm. Fe wnaethom sgorio dau gais ychydig cyn hanner amser gydag un wedi ei drosi gan Dan Griffiths. Gan fynd i mewn hanner amser ar y blaen 0 – 12, roedd angen i ni frwydro ymlaen i sicrhau'r fuddugoliaeth, a dyna'n union wnaeth y bechgyn, gan sgorio dau gais arall heb eu hateb yn yr ail hanner, a droswyd gan Dan Griffiths. Sgoriwyd cais yr un gan Liam Rogers, Jac Howells, Dafydd Evans a Jack Green, i sicrhau pwynt bonws yn ogystal. Sgor terfynol Mwmbwls 0 - San Cler 26.

Gyda'r tywydd gwael parhaus, fe lwyddon ni i sicrhau bod modd chwarae'r gêm ar Ebrill 6ed. Y Mwmbwls oedd ein gwrthwynebwyr unwaith eto ac roedd yr amodau yn heriol iawn (gwynt a chawodydd trwm yn ystod y gêm) yn dilyn wythnos o law trwm eto! Roedd y Mwmbwls unwaith eto yn gwneud pethau yn anodd i ni, ond gyda dyrchafiad eisoes wedi'i sicrhau, roeddem yn awyddus i fynd fyny fel pencampwyr. Gan chwarae yn erbyn gwynt cryf, enillon ni 36 – 15, ar ôl arwain 10 – 5 ar hanner amser. Y Mwmbwls sgorodd gynta ond gwnaeth y bechgyn gyd chwarae'n wych yn erbyn y gwynt am weddill yr hanner cyntaf. Gyda'r gwynt tu cefn i ni yn yr ail hanner, fe wnaethom ei ddefnyddio o'n plaid, gan roi pwysau cynyddol ar y Mwmbwls. Er iddynt hwythau sgorio dau gais arall yn yr ail hanner, gwnaeth San Cler sgorio 4 cais arall i sicrhau buddugoliaeth haeddiannol – a pwynt bonws. Dau gais i Jac Howells a cais yr un i Dan Evans, Rhodri Evans, Liam Rogers a Brandon Davies; troswyd tri ohonynt gan Dan Griffiths.

Ar ddiwedd y gêm, gyda newyddion bod Dinbych-y-Pysgod wedi ennill yn erbyn Abergwaun, ond heb gael pwynt bonws, cadarnhawyd taw ni yw pencampwyr Adran 2 y Gorllewin, drwy sicrhau 87 pwynt mewn 21 gêm, gan ennill 19 ohonynt. Un gêm i chwarae adref yn erbyn Llanbedr Pont Steffan ar Ebrill 13eg i gau pen y mwdwl ar dymor llwyddiannus arall i'r bechgyn. Clod i'r garfan gyfan a'r tîm hyfforddi am ymdrech fawr i sicrhau dyrchafiadau cefn wrth gefn, dau dymor yn olynol. Rydym yn edrych ymlaen at fywyd yn Adran 1 y Gorllewin, fydd yn brofiad newydd, yn ogystal ac yn un heriol i'r clwb.

**Tîm Ieuenctid**
Ychydig iawn o gemau mae'r tim ieuenctid wedi chwarae yn ddiweddar, o ganlyniad i'r tywydd gwael. Cafodd ei gêm yn erbyn Llandeilo ei ohirio ond gwnaethant lwyddo i chwarae gêm gyfeillgar yn erbyn Gilfach Goch ar Mawrth 30ain gan ennill 21 – 28. Bydd ei gêm nesaf i ffwrdd yn erbyn Castell Newydd Emlyn.

**Tîm Datblygu**
Bu'r tim yn chwarae adref yn erbyn Castell Newydd Emlyn yng Nghwpan Llanelli & District ar Mawrth 30ain. Roedd hi'n hyfryd i weld cyfuniad o fechgyn profiadol ac ifanc yn y tîm, gyda tua 15 o chwaraewyr y garfan yn cael cyfle i chwarae ychydig o rygbi. Gwnaeth y bechgyn yn dda ac ar un adeg roeddent yn colli 14 – 18. Castell Newydd wnaeth orffen gryfaf gan sgorio trosgais i ennill 14 - 25. Bydd y bechgyn yn chwarae yn erbyn Trimsaran nesaf, yng nghystadleuaeth y Plat – pob lwb i chi bois.

Dymuna'r clwb ddiolch o galon i'n holl chwaraewyr, cefnogwyr a noddwyr am eu cefnogaeth wych drwy gydol y tymor ac am sicrhau tymor llwyddiannus iawn i ni fel clwb.

*Gwyndaf Williams*



*Lluniau: Chris Rees*

